**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Llythrennedd a rhifedd yng Nghymru

Mehefin 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/0887
Rhif dogfen:13 /039

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Llythrennedd a rhifedd yng Nghymru

Mehefin 2013

Michael Dauncey

Mae'r papur ymchwil hwn yn amlinellu cyd-destun ymyriadau polisi Llywodraeth Cymru o ran llythrennedd a rhifedd ac yn ceisio esbonio'u pwysigrwydd.

Mae'r papur yn rhoi manylion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd, sy'n dod yn ofyniad statudol o fis Medi 2013 ymlaen, a phrofion cenedlaethol blynyddol mewn darllen a rhifedd a gyflwynir o fis Mai 2013 ymlaen. Mae hefyd yn trafod rhai o ymatebion y sector addysgu i'r polisïau hyn ac yn tynnu ar dystiolaeth arall er mwyn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â llythrennedd a rhifedd plant yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Crynodeb

Mae'r papur ymchwil hwn yn rhoi dwy o blith tair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn eu cyd-destun, fel y nodir yn ei Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: **gwella lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru.** Mae dau ffactor pwysig wedi cyfrannu at gyflwyno'r ymyriadau polisi, sef diffyg dylanwad y Fframwaith Sgiliau anstatudol a phryder oherwydd canlyniadau Cymru o dan Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2009.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglenni cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn 2012, gan amlinellu llwybr gweithredu a oedd wedi'i anelu at godi safonau. Mae **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol** yn allweddol o ran cyflawni'r rhaglenni hyn; mae'n sefydlu disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer yr hyn y dylai disgyblion ei ddysgu, ac mae'n **cyflwyno profion cenedlaethol** mewn darllen a rhifedd y bydd disgyblion yn eu sefyll yn flynyddol.

**Daw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ofyniad statudol o fis Medi 2013 ymlaen.** Bydd asesiadau ffurfiol yn ei erbyn yn dechrau ym mis Medi 2014 ac mae'r garfan gyntaf o ddisgyblion wedi sefyll y profion blynyddol ym mis Mai 2013. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn disodli elfennau o'r Fframwaith Sgiliau, a bydd yn offeryn cynllunio ar gyfer y cwricwlwm o ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 9 (oedrannau cyrhaeddiad 5-14). Mae'r disgwyliadau sydd wedi eu hamlinellu yn y fframwaith yn 'codi'r bar' o ran canlyniadau disgyblion, a bwriad y profion blynyddol rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9 yw rhoi darlun cenedlaethol mwy cydlynol o alluoedd llythrennedd a rhifedd yng Nghymru.

Mae'r papur hefyd yn crynhoi rhai o **ymatebion yr undebau athrawon i'r polisïau** a'r trefniadau a'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith er mwyn eu gweithredu. Mae'r ymyriadau polisi hyn yn digwydd mewn hinsawdd o **newid sylweddol yn y sector addysg** yng Nghymru ac ymchwilir i arwyddocâd hyn.

Yn olaf, mae'r papur yn trafod **canlyniadau TGAU a chanfyddiadau Astudiaeth Carfan y Mileniwm**, sy'n olrhain cynnydd plant cyfatebol a thebyg o ran oedran yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys yr hyn mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am lefelau llythrennedd a rhifedd yn y ddwy wlad.

Caiff canlyniadau nesaf PISA (ar gyfer 2012) eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013 ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai'r uchelgais fwyaf realistig yw ceisio sicrhau gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau PISA 2015. Rhwng nawr a hynny, mae'n amlwg y bydd llythrennedd a rhifedd yn ddwy sylfaen bwysig ar gyfer yr hyn y disgwylir i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru ei gyflawni. Bydd gweithredu'r rhaglenni cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn hollbwysig felly o ran sut y caiff y gyfundrefn ei gweld a'i barnu.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir y polisi a dylanwad PISA ..... 3**

2.1. Disodli'r Fframwaith Sgiliau anstatudol ..... 3
2.2. PISA 2009 ..... 5
2.2.1. Trefniadau samplu a phrofi ..... 5
2.2.2. Canlyniadau PISA 2009 a'u heffaith ar bolisi ..... 6

**3. Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ..... 11**

3.1. Y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol ..... 11
3.2. Y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol ..... 12
3.3. Cyflawni'r rhaglenni ..... 14

**4. Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ..... 15**

4.1. 'Codi'r bar' ..... 15
4.2. Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ..... 16
4.3. Cyflawni'r Fframwaith ..... 17

**5. Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ..... 19**

5.1. Cael darlun cenedlaethol o alluoedd disgyblion ..... 19
5.2. Trefniadau ar gyfer y profion ..... 20

**6. Ymateb y sector addysgu: ymatebion yr undebau llafur ..... 23**

6.1. Ymatebion yr Undebau Llafur ..... 23
6.1.1. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Cymru ..... 24
6.1.2. Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), Cymru ..... 25
6.1.3. Safbwynt ar y cyd gan NUT Cymru / NASUWT Cymru a'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol ..... 26
6.1.4. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) a Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) Cymru ..... 26
6.1.5. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) ..... 27
6.1.6. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ..... 28

**7. Ymyriadau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun o newid ehangach 30**

7.1. Newid strwythurol ..... 30
7.2. Cynllun gweithredu 'Gwella Ysgolion' ac adolygiad o asesu a'r cwricwlwm ..... 31
7.3. Adolygiad o Gymwysterau 14-19 a chymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg a Mathemateg ..... 31

**8. Rhagor o gymariaethau gyda gwledydd eraill y DU ..... 33**

8.1. Cymharu canlyniadau TGAU ..... 33
8.2. Astudiaeth Carfan y Mileniwm ..... 35
8.2.1. Methodoleg ..... 36

8.2.2. Canlyniadau ........................................................................ 37
8.2.3. Casgliadau WISERD ar Astudiaeth Carfan y Mileniwm ...................... 39

**9. Casgliad ........................................................................................ 40**

# Llythrennedd a Rhifedd

## 1. Cyflwyniad

Rhoddwyd mwy o ffocws ar ymdrechion i wella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf ac mae wedi cael llawer mwy o flaenoriaeth ar agenda bolisi ac agenda wleidyddol Cymru. Llythrennedd a rhifedd yw dwy o flaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru, ynghyd â lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Nodwyd y tair blaenoriaeth rhyng-gysylltiedig hyn ym mis Mehefin 2010 gan Leighton Andrews, AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes[1] ('y Gweinidog' o hyn ymlaen), fel canolbwynt y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion[2] ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan hynny yn gyson. Mae'r blaenoriaethau llythrennedd a rhifedd yn cyfrannu at y cam gweithredu allweddol 'Gwella cyrhaeddiad a safonau ysgolion' yn y **Rhaglen Lywodraethu**.

Nid yw pwysigrwydd cael pobl ifanc hynod lythrennog a rhifog pan fyddant yn gadael yr ysgol yn destun trafod newydd, fel y mae Prif Arolygwyr Estyn wedi ei nodi yn sawl un o'u hadroddiadau blynyddol yn ystod y degawd diwethaf[3], ond gellid dadlau bod dau brif reswm am y brys presennol.

Yn gyntaf, beirniadwyd y Fframwaith Sgiliau anstatudol, a gyflwynwyd yn 2008, gan Estyn am nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn ymwreiddio sgiliau o'r fath mewn addysg ledled y cwricwlwm ac felly nad oedd yn ddigon dylanwadol.[4]

Yn ail, dangosodd canlyniadau PISA 2009 (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010) ddirywiad ym mherfformiad Cymru o gymharu â gwledydd eraill ym meysydd darllen, mathemateg a gwyddoniaeth.

---

[1] Dyma oedd teitl Leighton Andrews ar y pryd; newidiodd yn ddiweddarach i fod yn Weinidog Addysg a Sgiliau, a hynny ym mis Mai 2011.

[2] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), ***Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion***, Datganiad Llafar y Cabinet, 29 Mehefin 2010 [fel ar 13 Mai 2013]

[3] Amlygwyd y ffaith bod angen gwella lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn adroddiad Estyn, ***Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2009-10***, Rhagair, t2-5. Yn ***Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2004-05***, Rhagair, t viii, amlygwyd y ffaith nad oedd mentrau sgiliau sylfaenol yn cynnwys digon o bobl ar y pryd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn llawn nac i wneud niferoedd sylweddol o bobl yn fwy cyflogadwy nag yn y gorffennol, mewn swyddi sy'n gofyn am safonau neu sgiliau uwch, yn enwedig llythrennedd a rhifedd. [fel ar 13 Mai 2013]

[4] Estyn, ***Y Fframwaith Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 2***, Gorffennaf 2011 [fel ar 25 Mawrth 2013]; Estyn, ***Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3***, Mai 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

Rhan o ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i ganlyniadau PISA 2009 oedd rhoi rhaglenni llythrennedd a rhifedd ar waith dros gyfnod o bum mlynedd. Ei hymateb penodol i'r cyntaf yw Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) cenedlaethol newydd i ddisodli elfennau o'r Fframwaith Sgiliau oedd yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Yn wahanol i'w ragflaenydd bydd hwn yn ofyniad cwricwlwm statudol o fis Medi eleni ymlaen ac mae'r FfLlRh yn elfen allweddol o'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd.

Yn ogystal â'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer disgyblion a nodwyd yn y FfLlRh Cenedlaethol a gofynion statudol i asesu'r rhain yn ffurfiol bob blwyddyn, bydd profion darllen a rhifedd cenedlaethol blynyddol ar gyfer myfyrwyr rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9. Digwyddodd y cyntaf o'r rhain rhwng 8 a 22 Mai 2013.

Yn y canlyniadau PISA diwethaf yn 2009 dangoswyd bod lefelau llythrennedd (yn ffurfiol, 'darllen') a rhifedd disgyblion yng Nghymru yn is na disgyblion cyfatebol yng ngweddill y DU. Mae tystiolaeth arall y mae'r papur ymchwil hwn yn ei hystyried o Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn rhoi canlyniadau tebyg am lythrennedd plant saith oed, gyda lefelau is yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Yn ogystal mae perfformiad TGAU disgyblion Cymru yn Saesneg Iaith a Mathemateg yn is nag yn Lloegr, sy'n arwain at gasgliadau posibl ynghylch eu galluoedd llythrennedd a rhifedd cymharol, er gwaethaf y ffaith bod diffygion yn y cymwysterau hynny fel ffordd o asesu llythrennedd a rhifedd.

Mae'r papur ymchwil hwn yn amlinellu'n fanylach y cyd-destun polisi y tu ôl i'r penderfyniad i flaenoriaethu llythrennedd a rhifedd wrth i'r pwyslais symud tuag at y cam gweithredu ar ôl i'r rhan fwyaf o'r gwaith datblygu a'r gwaith strategol gael ei gyflawni.

## 2. Cefndir y polisi a dylanwad PISA

Gellir dadlau bod modd priodoli'r sail resymegol dros flaenoriaethu codi safonau llythrennedd a rhifedd i ddau ffactor: methiant tybiedig y Fframwaith Sgiliau blaenorol i ymwreiddio sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, a chanlyniadau PISA 2009, y cytunwyd yn gyffredinol yn y sector addysg cyfan yng Nghymru eu bod yn siomedig.

### *2.1. Disodli'r Fframwaith Sgiliau anstatudol*

Cyflwynwyd y Fframwaith Sgiliau yn 2008 gan Lywodraeth Cymru fel ffordd o ategu gwaith cynllunio ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, pob Gorchymyn Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol (a ddiwygiwyd hefyd yn 2008) yn ogystal â meysydd eraill fel addysg bersonol a chymdeithasol. Nid ei fwriad oedd bod yn rhaglen astudio, a chan nad oedd yn statudol, nid oedd yn orfodol ar ysgolion.

I raddau helaeth, ymateb i ganfyddiadau ymhlith cyflogwyr nad oedd darpar weithwyr a phobl ifanc a oedd yn cael eu recriwtio yn meddu ar y sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol oedd y Fframwaith Sgiliau. Yn ***Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*** amlygwyd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel y bwlch sgiliau mwyaf, yn ogystal â galluoedd cyfathrebu a datrys problemau. Er nad oedd llythrennedd a rhifedd ar ben y rhestr, dywedodd mwyafrif y cyflogwyr eu bod yn bwysig, ac ychydig iawn o'r rhai a holwyd a ddywedodd nad oedd angen sgiliau llythrennedd a rhifedd arnynt gan eu gweithlu.[5]

Wedi hynny, cyflwynwyd Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig a nifer o fframweithiau newydd anstatudol, gan gynnwys y Fframwaith Sgiliau, yn 2008 yn dilyn adolygiad o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) yn 2004. Roedd yr adolygiad yn cynghori y dylid diwygio'r cwricwlwm yn sylweddol er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod dysgwyr yn dysgu sgiliau trosglwyddadwy.

Nododd y Fframwaith Sgiliau bedwar prif faes ar gyfer datblygu sgiliau, gan gynnwys:

- Cyfathrebu, gan gynnwys darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando;
- Rhif;
- Meddwl;
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

---

[5] Sgiliau Dyfodol Cymru, ***Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003***, 2003, t5,10 [fel ar 13 Mai 2013]

Cynhaliodd Estyn arfarniad o'r fframwaith sgiliau anstatudol yng Nghyfnod Allweddol 2, gan adrodd ar ei ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2011. Nododd Estyn:

> Ni ddefnyddir y Fframwaith Sgiliau'n dda i gynllunio dilyniant o ran medrau disgyblion. (...) Prin yw'r ysgolion sy'n cynllunio cwricwlwm 'seiliedig ar fedrau' sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n cymhlethu'n raddol sy'n cael eu cynllunio i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif y disgyblion.[6]

Dywedwyd bod y ffaith nad oedd y fframwaith yn statudol a bod rhyddid i ysgolion ac awdurdodau lleol ei weithredu yn ôl eu disgresiwn yn faterion arwyddocaol.

> Ar y cyfan, nid yw ysgolion yn ystyried bod medrau'n fan cychwyn i gynllunio'r cwricwlwm, ond eu bod yn hytrach yn ychwanegiad at gynlluniau gwaith presennol. (...) Mae ysgolion yn defnyddio Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol i gynllunio cynlluniau gwaith yn gyntaf ac yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion wedyn.[7]

Ategwyd y farn hon y flwyddyn ganlynol pan edrychodd Estyn ar y sefyllfa yng Nghyfnod Allweddol 3, gan ddod i'r casgliad:

> Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r Fframwaith Medrau wrth gynllunio datblygiad medrau oherwydd eu bod yn rhoi blaenoriaeth uchel ar wneud yn siŵr bod cynlluniau gwaith yn cyfateb i Orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (...) [ac] nid yw defnyddio'r fframwaith yn ofyniad statudol.[8]

O ran swyddogaeth awdurdodau lleol, nododd Estyn:

> Nid yw'r rhan fwyaf ... yn blaenoriaethu'r defnydd o'r Fframwaith Medrau gan ei fod yn anstatudol.[9]

Nid oedd ymdrechion ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael eu cwestiynu o reidrwydd, a thynnwyd sylw at y ffaith eu bod yn rhoi blaenoriaeth i gyfarwyddiadau a chanllawiau eraill, statudol fel arfer. Fodd bynnag, pwysleisiodd adroddiadau Estyn bwysigrwydd cefnogaeth statudol i bolisïau Llywodraeth Cymru, ac ym mis Mai 2012, dyfynnodd Wales Online y Gweinidog yn dweud bod methu â chyflwyno'r fframwaith yn statudol wedi bod yn gamgymeriad.[10] Mae hyn hefyd yn helpu i roi cyd-destun ar gyfer penderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn rhan **statudol** o'r cwricwlwm o fis Medi 2013 ymlaen.

---

[6] Estyn, ***Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2 - Gorffennaf 2011***, Gorffennaf 2011, t1 [fel ar 13 Mai 2013]
[7] ***Ibid***. t2
[8] Estyn, ***Y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3***, Mai 2012, t3 [fel ar 13 Mai 2013]
[9] ***Ibid***, t4
[10] Wales Online, ***http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/new-plan-launched-revolutionise-teaching-2030932*** 17 Mai 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

Mae pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd yn parhau i gael ei nodi fel rhywbeth hanfodol ar gyfer gofynion y farchnad waith. Nododd Archwiliad Sgiliau Strategol Cymru 2012 fod llythrennedd a rhifedd yn elfennau allweddol yn un o'r tri maes sgiliau trawsbynciol, sef 'Cyflogadwyedd a sgiliau sylfaenol'.[11]

## *2.2. PISA 2009*

Arolwg o gyraeddiadau addysgol disgyblion 15 oed mewn gwledydd ledled y byd yw'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA). Lansiwyd y rhaglen gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ym 1997, a chynhaliodd yr arolwg cyntaf yn y flwyddyn 2000. Mae'n digwydd bob tair blynedd a chymerodd Cymru ran ynddi am y tro cyntaf yn 2006. Mae adroddiad PISA yn rhoi canlyniadau ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, gyda phedair rhan y DU yn cyfrannu yn ôl maint eu poblogaethau.

Mae PISA yn profi disgyblion 15 oed, pan fyddant yn dod i ddiwedd eu haddysg orfodol, ar eu gallu i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i fynd i'r afael â heriau bywyd go iawn fel y'u hamlinellwyd yn y profion. Mae hyn yn gwneud PISA yn wahanol i asesiadau eraill o ddisgyblion, fel TGAU, sy'n mesur eu meistrolaeth o'r cwricwlwm ysgol.[12]

### *2.2.1. Trefniadau samplu a phrofi*

Cafodd y set fwyaf diweddar o brofion PISA eu sefyll gan 3,270 o ddisgyblion o 132 o ysgolion yng Nghymru ym mis Tachwedd 2009, sef disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 11 yn bennaf. Roedd hyn yn gyfystyr ag 88 y cant o ddisgyblion ac 87 y cant o ysgolion.[13] Roedd gofyniad bod yn rhaid samplu lleiafswm o 50 y cant o ddisgyblion ym mhob ysgol a oedd yn cymryd rhan. Gyda'i gilydd, safodd 470,000 o ddisgyblion 15 oed o 65 o wledydd ar draws y byd (33 ohonynt yn rhan o'r OECD) brofion PISA, sy'n cwmpasu tri maes - darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar gyfer pob cylch PISA, mae ffocws penodol ar un o'r tri maes hwn; gwyddoniaeth oedd y ffocws yn 2006, darllen oedd y ffocws yn 2009, mathemateg oedd y ffocws yn 2012 ac yn 2015 gwyddoniaeth fydd y ffocws unwaith eto.

---

[11] Yr Athrofa Astudiaethau Cyflogaeth a'r Athrofa Ymchwil Cyflogaeth, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, ***National Strategic Skills Audit for Wales 2012***, Chwefror 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

[12] Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. ac Wheater, R. (2010). ***PISA 2009: Cyrhaeddiad disgyblion 15 oed yng Nghymru***. Slough:NFER. t1 [fel ar 13 Mai 2013]

[13] ***Ibid*** t vii

Caiff y profion eu gweinyddu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA). Mae'r OECD yn dirprwyo'r gwaith o ddylunio'r profion, eu gweithredu a dadansoddi data wedi hynny i gonsortiwm rhyngwladol o dan arweiniad Cyngor Ymchwil Addysgol Awstralia. Oherwydd nifer ac amrywiaeth y gwledydd sy'n cymryd rhan, a thrwy ddefnyddio gweithdrefnau a phrofion safonedig, mae'r rhaglen yn cynnig ffordd o gymharu cyfundrefnau addysg gwledydd a lefel cyrhaeddiad eu disgyblion.

Mae'r berthynas rhwng canlyniadau PISA, gan gynnwys eu pwysigrwydd tybiedig, a ffyrdd mwy traddodiadol o asesu disgyblion fel TGAU wedi bod yn destun trafodaeth. Mae Prif Weithredwr bwrdd arholi mwyaf Cymru, CBAC, Gareth Pierce, wedi cynnig un gwahaniaeth posibl, sef mai nod pennaf PISA yw caniatau i wladwriaethau werthuso a chymharu pa mor effeithiol yw eu cyfundrefnau addysgu, tra bod TGAU yn galluogi myfyrwyr i ddangos pa mor addas ydynt ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch ac ar gyfer y farchnad gyflogaeth.[14]

### *2.2.2. Canlyniadau PISA 2009 a'u heffaith ar bolisi*

Cyhoeddwyd canlyniadau PISA 2009 ar 7 Rhagfyr 2010 ac maent ar gael ar **wefan OECD**. Caiff yr holl ganlyniadau eu dadansoddi fesul gwlad ac mae sylw'r cyhoedd yn tueddu i ganolbwyntio ar un canlyniad ymhob maes yn benodol – sef gwerth cymedr cyrhaeddiad disgyblion pob gwlad a'u safle o gymharu ag eraill. Mae adroddiad swyddogol OECD yn rhestru'r DU gyda'i gilydd ond mae dadansoddiad o'r canlyniadau yn benodol i Gymru wedi ei gynhyrchu gan SCYA, ***'PISA 2009: Cyrhaeddiad disgyblion 15 oed yng Nghymru'.***

[14] Gareth Pierce, "PISA versus GCSE: where does attainment most matter?" , Cyflwyniad i ***gynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig "The second wave in Welsh school improvement"*** , 8 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

Achosodd perfformiad Cymru gryn bryder, o gymharu â'r cylch blaenorol yn 2006 ac o gymharu â gwahanol rannau o'r DU a'r OECD yn ei gyfanrwydd. Dengys Tabl 1 y gwahaniaeth rhwng canlyniadau cylchoedd 2006 a 2009 ac mae Tablau 2 a 3 yn cymharu canlyniadau Cymru â chanlyniadau gwledydd eraill.

**Tabl 1: Sgorau cymedr Cymru yng nghylchoedd PISA 2006 a 2009**

| | *Sgôr cymedrig Cymru* | |
|---|---|---|
| Maes | 2006 | 2009 |
| Darllen | 481 | 476 |
| Mathemateg | 484 | 472 |
| Gwyddoniaeth | 505 | 496 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews), ***Datganiad ar raglen ryngwladol asesu myfyrwyr (PISA) 2009***), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Rhagfyr 2010 [fel ar 13 Mai 2013]

Nodiadau:

a) Gwelir bod sgorau cymedrig Cymru wedi lleihau ymhob un o'r tri maes rhwng cylch 2006 a chylch 2009. Wrth gyhoeddi'r data, nododd Llywodraeth Cymru nad yw'n ystadegol ddilys gwneud cymariaethau o'r fath, ond gan dynnu sylw at y newid a dweud ei fod yn adlewyrchu perfformiad cyffredinol ac y byddai llawer o ddarllenwyr y canlyniadau yn tynnu sylw at hynny.

b) Dim ond tua 70 y cant o'r disgyblion a samplwyd yng Nghymru a safodd y profion mathemateg a gwyddoniaeth yn 2009, gan nad dyma'r prif feysydd yn 2009, yn wahanol i ddarllen. Cafodd eu canlyniadau eu defnyddio gan PISA fel amcangyfrif o'r sampl llawn ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth.

*Cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU*

Cafodd Cymru sgorau cymedrig is yn y tri maes o gymharu â phob un o wledydd eraill y DU. Wrth gymharu sgorau cymedrig rhwng gwledydd, mae PISA yn defnyddio prawf arwyddocâd ystadegol i weld a ellir priodoli'r gwahaniaethau i ffactorau amgenach na dim ond gwallau samplu neu wallau mesur. Roedd y gwahaniaethau rhwng sgorau Cymru a sgorau gwledydd eraill y DU yn arwyddocaol ym mhob maes, sef darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y sgorau yn unrhyw un o'r tri maes ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Tabl 2: Sgorau cymedrig PISA 2009 ar gyfer gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig**

| | | | *sgôr cymedrig* |
|---|---|---|---|
| | Darllen | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
| Y DU | 494 | 492 | 514 |
| Lloegr | 495 | 492 | 515 |
| Yr Alban | 500 | 499 | 514 |
| Gogledd Iwerddon | 499 | 493 | 511 |
| Cymru | 476 | 472 | 496 |

Ffynhonnell: Tynnwyd o Dabl 8.1, t46; Tabl 8.11, t51; Tabl 8.15, t53; Tabl A1, t59; Tabl B1, t74; Tabl C1, t79, Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. ac Wheater, R. (2010). ***PISA 2009: Cyrhaeddiad disgyblion 15 oed yng Nghymru***. Slough: SCYA [fel ar 13 Mai 2013]

*Cymariaethau Rhyngwladol*

Roedd canlyniadau Cymru yn is na chyfartaledd yr OECD ymhob un o'r tri maes, sef darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, ond nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ar gyfer darllen a mathemateg, roedd sgorau cymedrig Cymru yn ystadegol arwyddocaol is na chyfartaledd yr OECD.

- O ran darllen, sgôr cymedrig Cymru oedd 476 a chyfartaledd yr OECD oedd 493. Roedd gan 29 o wledydd sgorau a oedd yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru, roedd gan 10 o wledydd sgorau nad oeddent yn arwyddocaol wahanol ac roedd gan 25 o wledydd sgorau a oedd yn arwyddocaol is.
- Sgôr cymedrig Cymru mewn mathemateg oedd 472, o gymharu â chyfartaledd yr OECD, sef 496. Roedd gan 35 o wledydd sgorau arwyddocaol uwch, roedd gan dair gwlad sgorau nad oeddent yn arwyddocaol wahanol ac roedd gan 26 o wledydd sgorau arwyddocaol is.
- O ran gwyddoniaeth, roedd sgôr cymedrig Cymru, sef 496, yn arwyddocaol is nag 20 o wledydd. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y sgôr a chyfartaledd yr OECD sef 501 a phymtheg gwlad arall, ac roedd gan 29 o wledydd sgorau a oedd yn arwyddocaol is.

Mae Tablau A1, B1 ac C1 yn yr Atodiadau i ***PISA 2009: Cyrhaeddiad disgyblion 15 oed yng Nghymru*** yn darparu'r wybodaeth hon yn llawn, gan restru sgorau gwledydd eraill a'u gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol, os o gwbl, o gymharu â Chymru.

*Ymateb polisi Llywodraeth Cymru*

Wrth ymateb i gyhoeddi canlyniadau PISA 2009, dywedodd Leighton Andrews bod:

> ffigyrau 2009 yn rhoi darlun mwy siomedig fyth o'n perfformiad a'n cynnydd [na 2006].[15]

Mewn araith amlwg ar 2 Chwefror 2011 gan y Gweinidog, disgrifiwyd canlyniadau PISA Cymru 2009 fel 'rhybudd ... fod gennym gyfundrefn hunanfodlon'.[16] Ddeufis yn gynharach, mewn datganiad gan y Cabinet a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd canlyniadau PISA, roedd wedi dweud:

> Mae PISA yn fesur cadarn ac uchel ei barch o berfformiad cymharol systemau addysg. Ni ellir dadlau dros nac esgusodi'r canlyniadau hyn. Mae'n rhaid i ni wynebu'r gwirionedd llym; nid yw ysgolion yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau mae ein pobl ifanc eu hangen ac yn eu haeddu.

Mynnodd y Gweinidog hefyd nad demograffeg Cymru na'i phroffil economaidd-gymdeithasol oedd i'w cyfrif am y canlyniadau:

> Ni ellir esgusodi'r canlyniadau hyn ar sail statws economaidd-gymdeithasol isel na natur ddwyieithog ein cenedl a'n cyfundrefn addysg. Ni ellir eu hesgusodi gan lefelau cyllid cymharol - mae gwariant addysg y pen yn y Ffindir yn debyg i Gymru ac eto mae'n perfformio'n gyson uchel iawn yn asesiadau PISA; mae gwariant Lwcsembwrg yn llawer uwch na Chymru ond nid yw eu canlyniadau PISA yn ddim gwell na'n rhai ni mewn darllen ac maent yn is mewn gwyddoniaeth; mae Seland Newydd yn gwario llai y pen na ni ond yn perfformio'n sylweddol well na ni.[17]

Roedd tystiolaeth PISA ar safle rhyngwladol Cymru o ran darllen a mathemateg yn rhoi argraff bendant i lawer bod llawer o waith dal i fyny gan Gymru i'w wneud o ran llythrennedd a rhifedd, neu o leiaf o ran sut y mae PISA yn eu mesur.

Uchelgais y Gweinidog yw y bydd Cymru ymysg yr 20 uchaf yng nghanlyniadau PISA 2015, rhywbeth y mae ef ei hun wedi cydnabod a fydd yn her sylweddol. I wneud hyn byddai'n ofynnol codi ugain safle a sicrhau cynnydd o 30-40 o bwyntiau PISA ym mathemateg, rhywbeth y nododd yr Athro David Reynolds mai dim ond Chile sydd wedi ei gyflawni, a hynny mewn deng mlynedd yn hytrach na chwe mlynedd.[18]

---

[15] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews),***Datganiad ar raglen ryngwladol asesu myfyrwyr (PISA) 2009.*** Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Rhagfyr 2010 [fel ar 13 Mai 2013]
[16] Leighton Andrews, '***Mae addysgu'n gwneud gwahaniaeth***'. Araith a roddwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, 2 Chwefror 2011 [fel ar 13 Mai 2013]
[17] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews), ***Datganiad ar y rhaglen ryngwladol asesu myfyrwyr (PISA)*** Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Rhagfyr 2010 [fel ar 13 Mai 2013]
[18] David Reynolds, cyflwyniad 'How can Wales perform better in PISA 2015/16?' i ***gynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig "The second wave in Welsh school improvement"*** 8 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

Oherwydd y pwyslais y mae meysydd darllen a mathemateg PISA yn ei roi ar lythrennedd a rhifedd, roedd y rhain yn rhan sylweddol o'r 'cynllun gweithredu 20 pwynt' a amlinellwyd gan y Gweinidog ar 2 Chwefror 2011[19] ac yr ymhelaethwyd arno ar 7 Chwefror 2012.[20] Roedd hyn yn cynnwys mesurau megis: uwchsgilio'r proffesiwn addysgu drwy gwrs newydd Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a threfniadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus diwygiedig; gwell atebolrwydd drwy Uned Safonau Ysgolion newydd a bandio ysgolion; a darpariaethau deddfwriaethol cryfach i fynd i'r afael ag ysgolion sy'n tanberfformio.

Fodd bynnag, mae rhaglenni cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a fframwaith cenedlaethol i ddarparu'r rhain fel rhan o'r cwricwlwm yn flaenoriaeth uchel o ran polisi addysgol yng Nghymru.

---

[19] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews), ***Gwella Safonau a Pherfformiad***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 2 Chwefror 2011 [fel ar 13 Mai 2013]
[20] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Perfformiad Ysgolion***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Chwefror 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

## 3. Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mae camau gweithredu o ran llythrennedd a rhifedd yn thema gyffredin yng nghynllun gweithredu 20 pwynt y Gweinidog drwyddo draw, er bod pwyntiau 7 ac 8 yn cyfeirio at gynlluniau a rhaglenni penodol.

### *3.1. Y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol** ym mis Mai 2012, gan ei disgrifio fel 'rhaglen genedlaethol i godi safonau llythrennedd yn ein hysgolion' ac amlinellu 'camau y bydd angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu cymryd er mwyn gweld safonau llythrennedd yn codi'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf'.[21] Dywedodd y Gweinidog, yn ei ddatganiad, y byddai gofyn 'bod pob ysgol yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd'.[22]

Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol, gyda nifer o gamau gweithredu cysylltiedig ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi'u rhestru o dan bob un o'r rhain yn atodiad y ddogfen. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### *Disgwyliadau a safonau cenedlaethol*

Mae'r thema hon yn cynnwys datblygu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chreu rhaglen ddatblygu broffesiynol i gefnogi'r gwaith o'i weithredu. Hefyd o dan y thema hon mae cryfhau'r dull o asesu llythrennedd fel bod modd olrhain cynnydd dysgwyr drwy gyflwyno profion darllen cenedlaethol i bob dysgwr rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9.

### *Cymorth a datblygiad*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cefnogi datblygiad proffesiynol o ran llythrennedd drwy'r rhwydwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol a thrwy dynnu sylw at athrawon llythrennedd rhagorol fel bod athrawon eraill yn gallu dysgu oddi wrth arfer gorau.

Bydd mwy o hyfforddiant llythrennedd i athrawon sydd newydd gymhwyso drwy addysgu cychwynnol, gan gynnwys cwrs newydd Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

---

[21] Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, ***Y Gweinidog yn lansio rhaglen o weithgareddau i godi safonau llythrennedd***, 17 Mai 2012 [fel ar 13 Mai 2013]
[22] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 16 Mai 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

### *Ymyrraeth benodol*

Caiff y system fandio ei defnyddio i helpu i nodi'r ysgolion hynny a fyddai'n elwa ar gymorth a her penodol, ac anogir athrawon â sgiliau isel o ran addysgu llythrennedd i ymgysylltu â Chymunedau Dysgu Proffesiynol. Mae'r thema hon hefyd yn cynnwys camau i weithredu rhaglenni ymyrraeth profedig ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o fynd ar ei hôl hi neu o beidio â chyflawni eu potensial.

### *Atebolrwydd a her*

Bydd disgwyl i bob awdurdod lleol, gan weithio o fewn consortia, osod camau gweithredu clir ar gyfer codi safonau ym maes llythrennedd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal 'archwiliadau' yn rheolaidd i fonitro cynnydd ac i ddwyn consortia i gyfrif. Rhoddir mwy o bwyslais ar berfformiad ym maes llythrennedd drwy sicrhau bod gan bob pennaeth amcan i wella safonau llythrennedd lle y bo'r angen.

## *3.2. Y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol*

Yn dilyn cyhoeddi ei rhaglen lythrennedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd **Raglen Rhifedd Genedlaethol** ym mis Medi 2012. Wrth wneud hynny, ategodd bwysigrwydd rhifedd mewn sefyllfaoedd bob dydd, gan bwysleisio'r ffaith y dylid dysgu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.[23]

Er mwyn gwahaniaethu rhwng rhifedd a mathemateg, diffiniodd Llywodraeth Cymru rifedd yn y rhaglen fel:

> Adnabod a defnyddio sgiliau ymresymu rhifiadol er mwyn datrys problem a chyflawni'r gweithdrefnau rhifiadol sy'n galluogi pobl i gyfrifo a dangos eu hatebion.[24]

Fel gyda llythrennedd, mae Llywodraeth Cymru wedi strwythuro ei Rhaglen Rhifedd Genedlaethol ar sail pedair thema, ac yn atodiad y ddogfen mae'n rhestru nifer o gamau gweithredu cysylltiedig o dan bob un o'r rhain. Rhoddir crynodeb o'r rhain isod.

### *Gwella'r cwricwlwm rhifedd*

Mae'r FfLlRh ar gyfer pob dysgwr rhwng 5 ac 14 oed wedi ei restru o dan y thema hon, yn ogystal â'r profion rhifedd cenedlaethol ar gyfer Blwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Dywed Llywodraeth Cymru hefyd y bydd yn sicrhau bod sgiliau rhifedd yn cael eu haddysgu a'u hasesu ar gyfer sgiliau rhesymu a gweithdrefnol.

---

[23] Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, ***Rhaglen newydd genedlaethol i wella safonau rhifedd yn ein hysgolion***, 26 Medi 2012 [fel ar 13 Mai 2013]
[24] Llywodraeth Cymru, ***Rhaglen Rhifedd Genedlaethol***, Medi 2012, t2 [fel ar 13 Mai 2013]

### *Hyrwyddo arferion addysgu mewn rhifedd*

Fel gyda'r rhaglen llythrennedd, bydd newidiadau i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn sicrhau bod gan bob athro newydd safonau rhifedd cymwys.

Bydd y cwrs newydd Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn canolbwyntio ar rifedd a chaiff Cymunedau Dysgu Proffesiynol eu hyrwyddo fel cyfrwng i ddatblygu sgiliau proffesiynol mewn rhifedd.

Caiff consortia rhanbarthol eu cyllido i adnabod a defnyddio athrawon rhifedd neilltuol er mwyn meithrin sgiliau, gwybodaeth a gallu eu cydweithwyr drwy rannu arferion effeithiol.

Caiff athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd gefnogaeth i ddiweddaru eu sgiliau er mwyn addysgu gallu ariannol, rhywbeth a nodir fel defnydd penodol a phwysig o rifedd.

Mae Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **adolygiad o fathemateg Cyfnod Allweddol 4** sy'n canolbwyntio ar ysgolion uwchradd sy'n mynd yn groes i'r duedd o danberfformio mewn TGAU mathemateg ac sy'n cael canlyniadau cystal â Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf neu ganlyniadau uwch.

### *Rhoi cymorth cyflym a llwyddiannus i ddysgwyr*

Bydd ysgolion yn cael arweiniad ar ymyraethau ar gyfer dysgwyr sydd ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion, er mwyn sicrhau bod pob athro/athrawes yn gallu adnabod y rhai sydd angen cymorth arnynt. Caiff rhaglen ei datblygu i annog cyflogwyr i gydweithio'n benodol gydag ysgolion i gynorthwyo athrawon i addysgu rhifedd.

### *Cyfleu pŵer rhifedd*

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i atgyfnerthu pwysigrwydd rhifedd a bydd yn edrych ar yr hyn mae Arolwg Omnibws Cymru yn ei ddangos o ran a yw agweddau at rifedd yn gwella dros oes y rhaglen. Caiff adnoddau ychwanegol eu darparu i blant sy'n dechrau ar y Cyfnod Sylfaen.

### *3.3. Cyflawni'r rhaglenni*

Mae'n amlwg o'r camau gweithredu a amlinellir yn y ddwy raglen y bydd y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn rhan gwbl allweddol o'r gwaith o gyflawni rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer llythrennedd a rhifedd.** Mae hyn i'w weld yn y ffaith y bydd yn rhan o'r cwricwlwm statudol o fis Medi 2013 ymlaen ac y bydd canlyniadau blynyddol disgwyliedig yn cael eu pennu ar gyfer dysgwyr 5-14 oed, o ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 9. **Er nad ydynt yn rhan o'r FfLlRh, bydd profion darllen a rhifedd blynyddol** yn rhoi darlun cenedlaethol o gyrhaeddiad a safonau rhwng Blwyddyn 2 (oedran cyrhaeddiad 7) a Blwyddyn 9 (oedran cyrhaeddiad 14) y gellir ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i athrawon, rhieni a gofalwyr.

Mae gan gymorth proffesiynol i'r proffesiwn addysgu ar gyfer gweithredu'r rhaglenni a chyflawni'r gwelliannau dymunol o ran lefelau llythrennedd a rhifedd swyddogaeth bwysig hefyd, yn ogystal â chyfuniad o gefnogaeth a her i ysgolion a chonsortia rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei llinell amser ar gyfer cyflawni'r rhaglenni, a gellir ei gweld yn **Llinell Amser y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol** a **Llinell Amser y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol** ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae pob llinell amser yn rhestru'r mesurau sy'n sail i'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd ac yn nodi'r cerrig milltir o ran eu gweithredu hyd 2014. Mae'r FfLlRh a'r profion darllen a rhifedd blynyddol ymhlith y mwyaf arwyddocaol o'r rhain.

## 4. Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) Cenedlaethol ar 28 Ionawr 2013. Yn ei ddatganiad wrth gyhoeddi hynny, dywedodd y Gweinidog y **byddai'r FfLlRh yn dod yn ofyniad cwricwlwm statudol o fis Medi 2013 ymlaen, ac y byddai asesiadau ffurfiol yn erbyn y Fframwaith yn dod yn ofyniad o fis Medi 2014 ymlaen.**[25] Dilynodd hyn gyfnod o ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 11 Mehefin a 12 Hydref 2012, lle y cafwyd 160 o ymatebion ysgrifenedig.[26] Gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad** ynghylch yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 5 Rhagfyr 2012. Caiff yr ymatebion i'r FfLlRh a'r profion cenedlaethol eu hystyried yn fanylach yn adran 6 y papur hwn.

Mae'r FfLlRh yn disodli elfennau cyfathrebu a rhif y Fframwaith Sgiliau anstatudol, y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y papur ac y barnwyd gan Estyn nad oedd yn ddigon dylanwadol. Mae'r FfLlRh yn offeryn cynllunio cwricwlwm sy'n ymestyn o ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 9 (oedrannau cyrhaeddiad 5-14) a'i nod yw integreiddio llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc, gan amlinellu disgwyliadau cenedlaethol blynyddol ar gyfer pob grŵp blwyddyn a'i gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gael eu hasesu'n ffurfiol bob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chaiff canlyniadau'r asesiadau hyn, a fydd yn statudol o fis Medi 2014 ymlaen, eu cydgrynhoi'n genedlaethol a dylid gwahaniaethu rhyngddynt a'r profion darllen a mathemateg a gyflwynwyd ym mis Mai 2013 (gweler adran 5).

### *4.1. 'Codi'r bar'*

Mae'r canlyniadau disgwyliedig a nodir yn y FfLlRh wedi eu bwriadu i ymestyn disgyblion a 'chodi'r bar' yn yr ystyr hwn. Ar hyn o bryd caiff disgyblion yng Nghymru eu hasesu gan athrawon ar ddiwedd tri phrif gam o'r cwricwlwm cenedlaethol: y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. O dan yr Asesiadau Statudol Athrawon presennol, mae disgwyl i ddysgwyr gyrraedd o leiaf lefel 4 y cwricwlwm cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran cyrhaeddiad 11), ac mae disgwyl iddynt gyrraedd o leiaf lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (oedran cyrhaeddiad 14). Fodd bynnag, bydd disgwyliadau'r FfLlRh yn agosach at lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac yn agosach at lefel 6 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.[27] Mae rhagor o wybodaeth am lefelau presennol y cwricwlwm cenedlaethol a'u disgrifiadau ar gyfer pob pwnc i'w gweld yn **adran y Cwricwlwm Cenedlaethol** ar wefan Llywodraeth Cymru.

---

[25] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Ionawr 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

[26] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion; Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a Phrofion***, Ionawr 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

[27] Llywodraeth Cymru, ***Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol***, Ionawr 2013, t7 [fel ar 13 Mai 2013]

Mae disgwyliadau'r FfLlRh wedi eu datblygu'n benodol at y diben hwn a dylid bod yn ofalus felly wrth osod canlyniadau asesiadau athrawon yn erbyn lefelau presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol i ragfynegi beth fydd perfformiad posibl y disgyblion yn erbyn y FfLlRh. Fodd bynnag, yng ngoleuni 'codi'r bar', os caiff disgwyliadau presennol y cwricwlwm eu defnyddio fel procsi, ymddengys fod canlyniadau asesiadau athrawon yn y pynciau Saesneg, Cymraeg a Mathemateg ar gyfer 2012 yn dangos y bydd angen gwelliannau sylweddol er mwyn i fwyafrif y disgyblion gyrraedd disgwyliadau'r FfLlRh.

Dengys Tabl 3 y lefelau cyrhaeddiad presennol o ran y lefel ddisgwyliedig bresennol a'r un a fyddai'n cyfateb â disgwyliadau'r FfLlRh, ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

**Tabl 3: Lefelau Asesiadau Athrawon ar gyfer pob disgybl, 2012**

*canran y disgyblion yn cyflawni*

| | Cyfnod Allweddol 2 | | Cyfnod Allweddol 3 | |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel 4 neu'n uwch | Lefel 5 neu'n uwch | Lefel 5 neu'n uwch | Lefel 6 neu'n uwch |
| Saesneg | 85 | 33 | 79 | 38 |
| Cymraeg | 84 | 27 | 84 | 41 |
| Mathemateg | 87 | 33 | 81 | 50 |

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, wedi eu tynnu o Dabl 4: asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer pob disgybl, yn ôl lefel, 2012; Tabl 7: Asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer pob disgybl, yn ôl lefel, 2012, ***Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o'r Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3***, Awst 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

Nodyn:

a) Y disgwyliad cyffredinol ar hyn o bryd yw y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

b) Bydd disgwyliadau'r FfLlRh yn debycach i lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a lefel 6 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

## *4.2. Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*

Dengys Tabl 4 isod sut y mae'r FfLlRh wedi ei strwythuro a'i rannu'n gydrannau, yn llinynnau, ac yn elfennau, ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Ar gyfer llythrennedd, mae'r elfennau wedi eu rhannu ymhellach yn 'agweddau'.

Yn erbyn pob un o'r elfennau rhifedd ac agweddau ar lythrennedd, rhestrir **nifer o sgiliau y mae disgwyl i ddysgwyr feddu arnynt bob blwyddyn yn y fframwaith**, sy'n rhychwantu'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.

Yn ogystal, mae categori 'ymestyn' o sgiliau y tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y grŵp blwyddyn uchaf, Blwyddyn 9, ar gyfer disgyblion mwy galluog a dawnus.

Yn ogystal â Thabl 4, mae manylion llawn y FfLlRh, gan gynnwys y canlyniadau a'r sgiliau disgwyliedig ar gyfer pob rhan o'r fframwaith ym mhob oedran, ar gael ar adran **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol** gwefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru o dan 'Cydrannau Llythrennedd' a 'Cydrannau Rhifedd'.

## *4.3. Cyflawni'r Fframwaith*

Bydd cyflawni'r FfLlRh yn golygu newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y cwricwlwm ei addysgu, neu fel y'i disgrifiwyd gan Estyn, 'ailraddnodi'r cwricwlwm'. Nodwyd hyn gan undebau athrawon fel rhywbeth a allai ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith athrawon (gweler adran 6).

Ar 28 Ionawr 2013, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sicrhau bod £7 miliwn ar gael o dan Raglen Gymorth Genedlaethol i helpu ysgolion ac athrawon i weithredu'r FfLlRh a gweinyddu'r profion cenedlaethol, ynghyd â chanllawiau a deunyddiau hyfforddi. Cynhaliodd bedwar digwyddiad rhanbarthol ledled Cymru ym mis Mawrth 2013 er mwyn lansio'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol a darparu gwybodaeth i weithwyr addysgu proffesiynol.[28]

Mae'r **Llinell amser ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd 2013-2014**, sy'n dangos dyddiadau allweddol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ar gael ar wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru.

[28] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Ionawr 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

**Tabl 4: Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol**[29]

| Cydran | Llinyn | Elfen | Agwedd |
|---|---|---|---|
| Llythrennedd | Llafaredd ar draws y cwricwlwm | Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad |
| | | | Gwrando |
| | | | Cydweithio a thrafod |
| | Darllen ar draws y cwricwlwm | Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth | Strategaethau darllen |
| | | Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | Darllen a deall |
| | | | Ymateb a dadansoddi |
| | Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm | Trefnu syniadau a gwybodaeth | Ystyr, dibenion, darllenwyr |
| | | | Strwythur a threfn |
| | | Ysgrifennu'n gywir | Iaith |
| | | | Llawysgrifen, cystrawen, atalnodi, sillafu |
| Rhifedd | Datblygu ymresymu rhifol | Adnabod prosesau a chywiriadau | |
| | | Cynrychioli a chyfathrebu | |
| | | Adolygu | |
| | Defnyddio sgiliau rhif | Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau | |
| | | Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb | |
| | | Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl a dulliau ysgrifenedig | |
| | | Amcangyfrif a gwirio | |
| | | Rheoli arian | |
| | Defnyddio sgiliau mesur | Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd | |
| | | Amser | |
| | | Tymheredd | |
| | | Arwynebedd a chyfaint. Ongl a safle | |
| | Defnyddio sgiliau data | Casglu a chofnodi data | |
| | | Cyflwyno a dadansoddi data | |
| | | Dehongli canlyniadau | |

[29] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), Tynnwyd o 'Cydrannau llythrennedd' a 'Cydrannau rhifedd', ***Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*** [fel ar 13 Mai 2013]

## 5. Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru i ddechrau y byddai prawf darllen cenedlaethol ac y byddai'n datblygu cynlluniau tebyg ar gyfer rhifedd yn ei chynllun 20 pwynt a amlinellwyd gan y Gweinidog ar 2 Chwefror 2011. Rhoddwyd diweddariad yn natganiad dilynol y Gweinidog flwyddyn yn ddiweddarach ar 7 Chwefror 2012, ac roedd cyflwyno **profion darllen a rhifedd blynyddol ar gyfer disgyblion rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9** yn rhan hanfodol o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a gyhoeddwyd y naill ym mis Mai a'r llall ym mis Medi 2012. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyflwyno'r profion cenedlaethol fel rhan o'r un ymarfer yn ymwneud â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Safodd y garfan flynyddol gyntaf o ddisgyblion y profion hyn yn ystod y cyfnod **8-22 Mai 2013.**

### *5.1. Cael darlun cenedlaethol o alluoedd disgyblion*

Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2011/12, amlygodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ('y Prif Arolygydd' o hyn ymlaen), Ann Keane, bwysigrwydd sicrhau set fwy cydlynol o ddata i ysgolion ei defnyddio i gymharu lefelau darllen a rhifedd eu disgyblion â lefelau disgyblion mewn ysgolion eraill. Nododd y Prif Arolygydd y bydd canlyniadau profion rhifedd eleni yn rhoi'r darlun cenedlaethol cyntaf o alluoedd rhifedd disgyblion, a'r argraff a roddir hefyd o ran darllen yw y bydd canlyniadau'r profion yn rhoi darlun llawer gwell o'r sefyllfa genedlaethol.[30] Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn defnyddio **profion darllen gwahanol ar wahanol gyfnodau** sy'n golygu, er bod Estyn yn casglu'r canlyniadau hyn ar wahân i awdurdodau lleol, **nid oes modd cymharu'r data hyn.** Yn y bôn, dywed y Prif Arolygydd mai'r unig gasgliad cyffredinol y gellir dod iddo yw y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe baent wedi gallu defnyddio'r un profion.[31] Y bwriad yw y bydd y profion darllen a rhifedd newydd yn newid hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'r ffaith y bydd gan y profion rôl wahanol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) ac mae wedi esbonio pam maent yn cael eu cyflwyno ym mis Mai 2013 cyn i'r FfLlRh ddod yn ofyniad cwricwlwm statudol ym mis Medi 2013:

> Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein polisïau i wella sgiliau rhifedd a llythrennedd yn gweithio. Bydd y data o brofion eleni yn llinell sylfaen y gall ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ei defnyddio i fesur cynnydd, a bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar athrawon er mwyn iddyn nhw fedru penderfynu ar ymyriadau.

---

[30] Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2011-2012*, Rhagair, t6 [fel ar 13 Mai 2013]
[31] *Ibid*, Adran 1: Blaenoriaethau a Darpariaeth, t4

> Er bod y profion hyn wedi'u datblygu gan gyfeirio'n ofalus at ddisgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, mae'n bwysig pwysleisio mai profion yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol fydd y rhain, ac y byddan nhw'n asesu sgiliau y dylai dysgwyr fod yn eu caffael yn barod fel rhan o'r Cwricwlwm hwnnw. Felly, **er eu bod yn ategu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, maen nhw'n annibynnol arno.** [fy mhwyslais i][32]

## *5.2. Trefniadau ar gyfer y profion*

Mae'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn brofion penodedig, sydd wedi eu **datblygu'n benodol ar gyfer Cymru a gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) ac Acumina.** Mae SCYA yn ddarparwr gwasanaethau ymchwil, asesu a gwybodaeth annibynnol ar gyfer gwasanaethau addysg, hyfforddi a phlant, ac mae Acumina yn ddarparwr deunyddiau addysgol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw nad ychwanegiad fydd y profion cenedlaethol ond yn hytrach y byddant yn disodli'r gwahanol ffurfiau ar brofion cyfunol blynyddol y mae'r mwyafrif o ysgolion yng Nghymru yn eu gweinyddu.

- Ceir **un prawf darllen Saesneg** ac **un prawf darllen Cymraeg**, ac mae gan ddisgyblion hyd at 60 munud i gwblhau pob un ohonynt.
- Bydd disgyblion Blwyddyn 2 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll y prawf darllen Cymraeg yn unig, a bydd disgyblion Blwyddyn 3 yn gwneud y prawf darllen Cymraeg ar sail statudol gyda dewis ychwanegol o sefyll y prawf Saesneg yn wirfoddol.
- Mae gofyn i bob grŵp blwyddyn arall sefyll y profion darllen Cymraeg a Saesneg. Bydd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn sefyll y profion yn Saesneg yn unig. O ran rhifedd, i ddechrau bydd un prawf gweithdrefnol (yn profi gwybodaeth am brosesau mathemategol a rhifol) a fydd yn para hyd 30 munud.
- **O 2014 ymlaen, bydd ail brawf rhifedd i gyd-fynd â'r prawf, a bydd hwnnw'n canolbwyntio ar resymu** (profi'r gallu i ddeall pa sgiliau sydd eu hangen i ddatrys problem a sut i ddefnyddio'r sgiliau hynny) a bydd gan ddisgyblion hyd 30 munud i gwblhau hwnnw hefyd.
- Mae'r cyfnodau prawf hyn yn ychwanegol at amser a neilltuir at ddibenion gweinyddol megis rhoi cyfarwyddiadau a gweithio drwy gwestiynau ymarfer.

---

[32] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), ***Digwyddiadau'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, Atebion i'ch Cwestiynau: Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol***, t6 [fel ar 13 Mai 2013]

Mae'r Llawlyfr Gweinyddu Profion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn datgan y gall ysgolion ddefnyddio eu disgresiwn o ran gweithredu trefniadau a fydd yn ei gwneud yn haws i ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 a 3 berfformio hyd eithaf eu gallu. Mae hyn yn cynnwys caniatáu iddynt rannu'r prawf yn ddarnau llai –tair rhan ar gyfer y prawf darllen a dwy ran ar gyfer y prawf rhifedd – cyhyd â bod y rhain i gyd yn cael eu sefyll mewn un diwrnod, nad eir y tu hwnt i'r terfyn amser, ac nad yw dysgwyr yn cael cyfle i newid atebion a roddwyd mewn rhannau blaenorol o'r prawf.

**Ym maes rhifedd, caiff profion gwahanol eu sefyll gan bob grŵp oedran rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9 mewn rhifedd, ond bydd disgyblion yn gwneud y prawf darllen mewn grwpiau dwy flynedd.** Y rheswm a roddwyd gan Lywodraeth Cymru am hynny yw bod datblygiad sgiliau darllen dysgwyr yn fwy amrywiol na'u datblygiad mewn rhifedd oherwydd dylanwad gwaith darllen annibynnol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y caiff prawf darllen newydd ei ddatblygu ar gyfer 2014 ac na fydd yr un dysgwr yn sefyll yr un prawf ddwywaith.[33]

Mae profion darllen dewisol ar gyfer Blwyddyn 4 – Blwyddyn 9 ar gael y gall ysgolion eu defnyddio i ymchwilio ymhellach i sgiliau darllen dysgwyr. Nid oes gofynion adrodd ar ddata ar gyfer y profion gwirfoddol ychwanegol hyn, a gall ysgolion eu defnyddio fel y mynnant cyhyd â bod y disgyblion wedi sefyll y prawf darllen cenedlaethol perthnasol.

Fel gyda'r FfLlRh, mae undebau athrawon wedi mynegi pryderon am feichiau gweinyddol a llwyth gwaith ychwanegol yn sgil gweinyddu'r profion.

Ar 30 Ionawr 2013, cyhoeddodd y Gweinidog y **byddai grant untro ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2012/13 i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r profion eleni.** Caiff cyfanswm o **£700,000** ei sianelu drwy awdurdodau lleol yn uniongyrchol i ysgolion, gyda chyllid untro yn amrywio o £350 i £1,000 fesul ysgol yn dibynnu ar faint y garfan ym Mlynyddoedd 2-9.[34]

Yn y bôn, mater i ysgolion fydd ystyried a yw'n briodol iddynt fabwysiadu unrhyw drefniadau presennol sydd ganddynt ar waith ar gyfer gweinyddu a marcio profion yn fewnol ynteu a ydynt am wneud newidiadau i'r trefniadau hynny ar gyfer y profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Wrth wneud hynny, fe'u cynghorir i ystyried y darpariaethau presennol o ran cyflog ac amodau athrawon.[35] Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y profion wedi eu cynllunio er mwyn i ystod o staff yn gallu eu marcio ac mai mater o ddisgresiwn i ysgolion yw pwy fydd yn

---

[33] *Ibid*, t4 [fel ar 13 Mai 2013]
[34] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), *Cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer y Profion Llythrennedd a Rhifedd*, 25 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]
[35] Canllawiau Llywodraeth Cymru 099/2013, *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2013*, Mawrth 2013, t7-9 [fel ar 13 Mai 2013]

cyflawni'r swyddogaeth hon. Fodd bynnag, adroddwyd ym mis Mawrth 2013 bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno gydag undebau llafur na fyddai disgwyl i athrawon farcio'r profion (gweler adran 6.1.3).

Wrth geisio rhoi sicrwydd ynghylch hygrededd y canlyniadau, o ystyried y bydd ysgolion a phenaethiaid yn marcio profion a fydd, yn anochel, yn cael eu defnyddio i'w beirniadu a'u cymharu, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud:

> Bydd gofyn i benaethiaid lofnodi datganiad yn cadarnhau bod y profion wedi'u marcio yn unol â'r canllawiau yn y llawlyfr ar weinyddu'r profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Bydd awdurdodau lleol yn monitro hefyd, gan samplu papurau ac ymweld â sampl o 10% neu fwy o'r ysgolion yn eu hardal yn ystod y cyfnod pan gynhelir y profion er mwyn arsylwi ar yr hyn sy'n digwydd. Bydd y trefniadau hyn yn fodd i gymell ysgolion i beidio â gwyro oddi wrth y canllawiau.[36]

Mae'r llinellau amser ar gyfer y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn nodi'r cyfnod amser blynyddol canlynol ar gyfer gweinyddu a chasglu canlyniadau'r profion cenedlaethol:

- Mai: Profion statudol yn cael eu gweinyddu mewn ysgolion
- Mehefin / Gorffennaf: Casglu data ac adborth cychwynnol i ysgolion
- Gorffennaf / diwedd tymor yr haf: Rhoi adroddiad i rieni / gofalwyr
- Medi: Dilysu data cenedlaethol[37]

[36] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), ***Digwyddiadau'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, Atebion i'ch Cwestiynau: Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol***, t7 [fel ar 13 Mai 2013]

[37] Tynnwyd o ddogfen Llywodraeth Cymru, ***Llinell Amser y Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol***; ***Llinell Amser y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol***, [fel ar 13 May 2013]

## 6. Ymateb y sector addysgu: ymatebion yr undebau llafur

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac ar y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol fel rhan o'r un **ymarfer** rhwng 11 Mehefin a 12 Hydref 2012, gan gyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** ym mis Ionawr 2013.

Cafwyd 160 o ymatebion ysgrifenedig, a daeth dros 300 o bobl i bum digwyddiad ymgynghoriad ledled Cymru. Mae datganiadau'r Gweinidog a chrynodeb yr ymgynghori yn cyfeirio at bryderon a fynegwyd ynghylch llwyth gwaith uwch a sut y bydd y cyfan yn cydweddu â'r cwricwlwm a'r gofynion asesu presennol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o'r ymatebwyr a'u hymatebion llawn.

### *6.1. Ymatebion yr Undebau Llafur*

Nid yw'n syndod bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, gan gynnwys undebau llafur athrawon, yn cytuno bod llythrennedd a rhifedd yn nodweddion pwysig yn addysg disgyblion, ond codwyd rhai pryderon.

Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd pryderon Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru, a nododd wrthwynebiad i'r FfLlRh. Yn wir, mae'r ddau undeb llafur hyn wedi ailbwysleisio beirniadaeth o ddulliau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn datganiadau diweddar i'r wasg, y cyfeirir atynt isod.

Mae undebau eraill, megis Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), yn ogystal â Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) Cymru, wedi codi pryderon ymarferol megis llwyth gwaith ond yn croesawu'r rhan fwyaf o elfennau'r FfLlRh yn gyffredinol. Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) hefyd wedi mynegi rhai pryderon ymarferol gan gynnwys materion penodol i'r sector cyfrwng Cymraeg.

Mae'r canlynol yn rhoi cipolwg ar rai o'r safbwyntiau a godwyd gan yr undebau athrawon yng Nghymru. Nid yw'n gynhwysfawr ac mae rhagor o fanylion ar gael yn yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad, y cyfeirir atynt isod.

### *6.1.1. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Cymru*

Yn ei **hymateb i'r ymgynghoriad**, heriodd yr NASUWT sail resymegol y polisi y mae'r FfLlRh a chyflwyno profion cenedlaethol yn seiliedig arno, gan anghytuno â'r canfyddiad bod cyfundrefn addysg Cymru mewn 'argyfwng' a chan ddadlau bod gormod o bwys yn cael ei roi ar ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA):

> The NASUWT is therefore concerned that the development of the LNF and national testing by the Welsh Government is taking place in a context within which Ministers continue to assert that the education system in Wales is inadequate and that the key driver of policy must be to correct profound deficiencies in the quality of provision. (...)
> The NASUWT must continue to draw the attention of the Welsh Government to the fact that claims that Wales is confronted by a crisis of educational standards are without any credible foundation and cannot therefore form the basis for the development of effective national education policy.[38]

Aeth yr NASUWT ymlaen i ddweud:

> Given that the proposals set out in the consultation document are justified on the basis that they seek to address levels of underperformance in the education system in Wales, for which there is no substantial or authoritative evidence, the NASUWT must reaffirm its view that the Welsh Government should set aside proposals for the introduction of the LNF and national testing established on this premise. Instead, the Welsh Government should look to explore more effectively the reality of the position with regard to the progress and achievement of pupils in Wales and establish proposals for curriculum reform, including supporting the development of pupils' literacy and numeracy skills, that are based on more rigorous evidence of the current performance of the education system and how teachers and school leaders can be most effectively supported to continue to raise standards in future.[39]

Holodd yr NASUWT hefyd a oedd y Fframwaith Sgiliau anstatudol wedi bod yn aflwyddiannus mewn gwirionedd, rhywbeth a oedd yn ffactor allweddol wrth symud tuag at FfLlRh newydd gyda chefnogaeth statud, gan ychwanegu y byddai prinder adnoddau ar gyfer y gofynion newydd yn gwaethygu llwyth gwaith athrawon, sydd eisoes yn drwm:

> Given that pressure on schools to evidence compliance with the statutory provisions of the LNF would be even more pronounced than those associated with the non-statutory Skills Framework, the failure of the Welsh Government to set out coherent and credible plans for the resourcing of support for LNF implementation[40] would risk exacerbation of the considerable negative workload implications for teachers and school leaders generated currently by the Skills Framework.[41]

---

[38] NASUWT Cymru, ***NASUWT Response to Welsh Government Consultation Response for the Literacy and Numeracy Framework and Tests***, 12 Hydref 2012, t3 [fel ar 13 Mai 2013]
[39] ***Ibid***, t5 [fel ar 13 Mai 2013]
[40] Yn ddiweddarach cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Raglen Gymorth Genedlaethol gwerth £7m i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
[41] ***Ibid***, t9 [fel ar 13 Mai 2013]

Yn fwy diweddar, pasiodd yr NASUWT gynnig yn ei chynhadledd flynyddol ar 31 Mawrth 2013 yn galw am gynnydd yn amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) athrawon ar gyfer y FfLlRh oherwydd pryderon y bydd sylw athrawon yn cael ei dynnu o ganolbwyntio ar addysgu a dysgu.[42] Roedd hyn er gwaetha'r ffaith i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Rhaglen Cymorth Genedlaethol gwerth £7 miliwn ar gyfer gweithredu'r FfLlRh a grantiau untro i ysgolion i gynorthwyo â gweinyddu'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ym mis Mai 2013.

### *6.1.2. Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), Cymru*

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dadleuodd NUT Cymru yn gryf yn erbyn cyflwyno profion darllen a rhifedd cenedlaethol.

> We fundamentally oppose the model of testing that is being proposed. (…)
> The introduction of these tests will do nothing to help develop and improve the ability of children and service only to reduce teaching time and undermine the professionalism of the sector. (…)
> The NUT, as per its constitution, is opposed to SATs and views these tests as a return to that flawed and discredited approach.[43]

Ymddengys fod pryderon yr NUT yn ymwneud yn bennaf â'r goblygiadau i lwythi gwaith athrawon a'r effaith ar faint o amser y byddant yn ei dreulio yn addysgu ac yn rhyngweithio â dysgwyr.

> There are serious concerns about the workload associated with this requirement. Asking teachers to undertake yet further assessment for every learner is going to be workload intensive and will lead to less actual teaching time.[44]
>
> In terms of a reduction of teaching time, this could very well echo the fears realised as part of the Child Development Assessment Profiles, where teachers were left unable to actually teach children because they were so preoccupied with assessing them. The NUT fears that these tests could end up ensuring that teachers are aware of the levels of literacy and numeracy of their pupils but unable to spend enough quality teaching time with them to advance that development.[45]

Codwyd pryderon hefyd am y FfLlRh ac a yw'n gydnaws â'r Cyfnod Sylfaen oherwydd y dulliau gweithredu gwahanol y mae'r ddau'n eu cwmpasu.

> We also feel that the introduction of such a precise framework for 5 to 14 year olds, in conjunction with standardised testing, is totally contradictory to the methodology and ethos of the foundation phase. The values of this strategy are placed at risk by the formulaic approach the Welsh Government wishes to impose on schools through these tests. It risks the very nature of learning that children have become accustomed to through the foundation phase.[46]

---

[42] NASUWT, Datganiad newyddion, ***Welsh Government warned to honour its commitments to literacy and numeracy***, 31 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]
[43] NUT Cymru, *National Literacy and Numeracy Framework (LNF) and Tests,* 2012, t1 [cafwyd gan NUT Cymru]
[44] *Ibid*, t2
[45] *Ibid*, t5
[46] *Ibid*, t5

Fel gyda'r NASUWT, pasiodd yr NUT gynnig yn ei gynhadledd flynyddol yn ddiweddar yn galw am adolygiad ar unwaith o'r FfLlRh ac yn gofyn am drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â phryderon. Pwysleisiodd yr NUT nad oes neb yn fwy ymroddedig i'r gwaith o gefnogi safonau llythrennedd a rhifedd nag athrawon, ac nad y pwyslais ar wella'r rhain a oedd yn destun pryder iddynt. Fodd bynnag, mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2013, dywedodd:

> The Welsh Government's Literacy and Numeracy Framework (LNF) threatens to increase workload, stress for pupils, will compound failure and will undermine the very professionalism underpinning the teaching sector.[47]

### *6.1.3. Safbwynt ar y cyd gan NUT Cymru / NASUWT Cymru a'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol*

Cyhoeddodd NUT Cymru ac NASUWT Cymru **ddatganiad i'r wasg ar y cyd** ar 22 Mawrth 2013 yn dweud eu bod yn cynghori eu haelodau, yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, na ddylent weinyddu'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol oni bai eu bod yn rhan o wers wedi'i hamserlennu a'u bod yn cael eu cynnal yn ystafell ddosbarth yr athro. Maent wedi dweud wrth eu haelodau nad oes disgwyl iddynt baratoi eu hystafelloedd dosbarth ar gyfer y profion; na ddylent farcio'r profion na chofnodi data o'r profion.[48]

Dylid nodi bod anghydfodau ehangach rhwng y ddau undeb a Llywodraeth Cymru ynghylch llwyth gwaith a bod y ddau undeb yn eu hymatebion unigol i'r ymgynghoriad yn 2012 wedi rhybuddio ynghylch y posibilrwydd y gallai gofynion y FfLlRh a'r profion cenedlaethol fod yn ffactor a allai waethygu'r sefyllfa.[49]

### *6.1.4. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) a Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) Cymru*

Cyflwynodd NAHT Cymru a'r ASCL ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad, a oedd yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, ac yn awgrymu sawl maes ar gyfer gwella. Dywedodd y ddau undeb mai barn arweinwyr ysgolion ymhlith eu haelodau oedd y gallai'r FfLlRh fod yn un o'r datblygiadau mwyaf disglair o ran llunio polisi addysg datganoledig, a'i fod yn rhywbeth y dylid ei wneud a bod yn rhaid ei wneud. Yn ei **hymateb** ei hun, dywedodd yr ATL ei bod yn cefnogi llawer o'r pwyntiau yn ymateb yr NAHT / ATL, a oedd yn cynnwys:

---

[47] NUT, Datganiad Newyddion, ***Literacy and Numeracy Framework in Wales***, 1 Ebrill 2012 [fel ar 13 Mai 2013]
[48] NUT Cymru ac NAHT Cymru, Datganiad Newyddion, ***NASUWT/NUT joint guidance on literacy and numeracy tests***, 22 Mawrth 2013 [13 Mai 2013]
[49] NUT Cymru, *National Literacy and Numeracy Framework (LNF) and Tests,* 2012, t4,6 [cafwyd gan NUT Cymru}; NASUWT Cymru, ***NASUWT Response to Welsh Government Consultation Response for the Literacy and Numeracy Framework and Tests***, 12 Hydref 2012, t9,10 [fel ar 13 Mai 2013]

> The Frameworks accord entirely with the professional view on how literacy and numeracy standards can be raised in Wales.
> **We believe equally strongly that this will not happen unless some of the existing pressures in the system are removed or softened.**[50]

Pwysleisiodd y tri undeb bwysigrwydd ymwreiddio'r FfLlRh yn gywir mewn ysgolion a darparu digon o adnoddau, yn enwedig o ran hyfforddi, gan ddatgan:

> its integrity will be shattered and its effectiveness fatally undermined [if] it is not properly absorbed and understood across the profession.[51]

Ymhlith y mesurau y mae'r tri undeb yn eu hawgrymu a fydd yn galluogi gweithredu'r FfLlRh yn gywir mae dynodi'r pynciau Sylfaen (nid craidd) yn rhai anstatudol er mwyn blaenoriaethu llythrennedd a rhifedd, gan integreiddio sgiliau eraill Cymraeg/Saesneg a Mathemateg er mwyn cynnwys yr holl sgiliau allweddol, a diffinio cynnydd disgwyliedig yn ôl 'camau' yn hytrach na grwpiau blwyddyn.

O ran y profion darllen a llythrennedd cenedlaethol, mae NAHT Cymru ac ATL Cymru yn cytuno eu bod yn angenrheidiol a bod pennu dull gweithredu cenedlaethol cyson yn synhwyrol o ystyried bod llawer o ysgolion yn gweinyddu eu profion eu hunain eisoes. Fodd bynnag, maent yn mynegi pryder y bydd ysgolion yn addysgu ar gyfer y prawf ar draul addysgu'r cwricwlwm ehangach, mwy creadigol.[52]

Yn ei sylwadau penodol ei hun, nododd ATL Cymru y tri maes canlynol fel prif bryderon ei haelodau o ran goblygiadau ymarferol gweinyddu a marcio'r profion cenedlaethol:

a) "teaching to the test" would become the norm.
b) The workload implications. As one commented: 'Teachers will either mark at home (work/life balance issues) or sit the class in front of videos while they mark in school time'.
c) There will be a narrowing of the curriculum.[53]

### *6.1.5. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)*

Daw aelodau UCAC yn bennaf o'r sector cyfrwng Cymraeg, ac yn gyffredinol mae'r undeb yn gefnogol o'r FfLlRh, gan wneud sylwadau ar ei werth o ran pennu rôl eglur ar gyfer athrawon, rhieni a dysgwyr.

> Credwn fod y pwyslais yn y FfLlRh ar gyflawniad cam-wrth-gam gyda dilyniant clir, a ffocws ar y nod cyflawniad nesaf yn un a all fod yn werthfawr tu hwnt, ar gyfer athrawon, dysgwyr a rhieni – gan roi rôl glir i bob un ohonynt yn y broses ddysgu.[54]

---

[50] NAHT [Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon] Cymru ac ASCL [Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau] Cymru, *Joint response to the consultation on the National Literacy and Numeracy Frameworks and tests*, 2012 , t2 [cafwyd gan NAHT Cymru]
[51] *Ibid*, t6
[52] *Ibid,* t7
[53] Association of Teachers and Lecturers (Cymru), ***National Literacy and Numeracy Framework (LNF) and Tests*, 2012**, p3 [accessed 13 May 2013]

Fodd bynnag, tynnodd UCAC sylw at sawl pwynt ymarferol, gan gynnwys pwysleisio'n gryf na ddylid asesu disgyblion yn erbyn pob pwynt bwled yn y FfLlRh ac y dylid ei ddefnyddio fel offeryn cynllunio, neu y byddai'r baich gweinyddol yn amhosibl ei reoli.

> Sylwn fod nifer helaeth iawn o eitemau wedi'u rhestru ar gyfer pob blwyddyn ysgol, yn enwedig pan edrychir ar y cyfanswm ar draws yr holl linynnau. Rhaid inni bwysleisio yn y termau cryfaf posib, pwysigrwydd defnyddio'r rhain fel teclyn cynllunio'r addysgu yn benodol, ac na ddylid ceisio asesu pob disgybl yn erbyn pob pwynt bwled. Mae perygl gwirioneddol fan hyn o greu cyfundrefn drychinebus, tebyg iawn i'r Proffil Asesu Cyfnod Sylfaen, os yw ysgolion yn camddehongli natur yr asesiadau yn erbyn y Fframwaith. Wrth gyflwyno'r FfLlRh, rhaid i'r Llywodraeth ofalu ei bod yn gwbl glir, ac yn gwbl gyson ei neges, ynglŷn â fformat a manylder priodol yr asesiadau yn erbyn y Fframwaith. Fel arall, bydd y baich gweinyddol yn amhosib i'w reoli. Mae hwn yn faes amlwg ar gyfer arweiniad diamwys a hyfforddiant trylwyr i'r gweithlu cyfan.[55]

Dadleuodd UCAC fod hyfforddiant yn allweddol i lwyddiant y FfLlRh ac, o ran yr effaith ar lwyth gwaith, bod angen rhoi sylw i sicrhau nad yw athrawon yn cael eu llethu gan gyfrifoldebau gweinyddol.

> Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau nad yw'r gyfundrefn newydd hon yn rhy weinyddol feichus – a hynny er mwy llwyddiant y gyfundrefn ei hun, yn ogystal ag er mwyn peidio gorlwytho staff â lefel amhosib o waith a chyfrifoldebau.[56]

Dadleuodd UCAC hefyd fod y FfLlRh yn rhagdybio bod plant yn datblygu ar yr un cyflymder bob blwyddyn, ac nad yw hynny'n wir o reidrwydd. Awgryma y dylid rhannu'r FfLlRh yn ôl cynnydd yn hytrach na fesul blwyddyn ysgol, gan wneud pwynt tebyg i'r un a wnaethpwyd gan yr NAHT, ATL a'r ASCL ynghylch diffinio cynnydd mewn camau yn hytrach na grwpiau blwyddyn.

> Serch hynny, drwy drefnu'r Fframwaith yn y fath fodd, ar sail blynyddoedd ysgol penodol, mae'r Fframwaith yn rhoi'r argraff ei fod yn rhagdybio bod plant yn gwneud cynnydd cyfatebol o flwyddyn i flwyddyn. Ni fydd hyn o reidrwydd yn wir. (…)
> Byddai gosod y Fframwaith ar sail camau cynnydd o ryw fath yn gallu osgoi neu o leiaf lliniaru ar rai o'r problemau uchod.[57]

### 6.1.6. *Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad*

Cyhoeddodd y Gweinidog fanylion ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad mewn dau Ddatganiad Cabinet. Ar **5 Rhagfyr 2012**, cyhoedd ei ymateb mewn perthynas â'r FfLlRh ac ar **30 Ionawr 2013** cyhoeddodd ei ymateb mewn perthynas â'r profion cenedlaethol. Mae tudalennau 13-15 o'r **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn sgil y farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad.

---

[54] Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), ***Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) a Phrofion Cenedlaethol***, Hydref 2012, t1 [fel ar 13 Mai 2013]
[55] ***Ibid***, t1,
[56] ***Ibid***, t4,
[57] ***Ibid***, t1,2

Dau o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol a wnaeth Llywodraeth Cymru i'r FfLlRh yn dilyn yr ymarfer ymgynghori oedd mabwysiadu **dull graddol o'i weithredu** a **chryfhau'r gefnogaeth** sydd ar gael i ysgolion ei gyflawni.

Er y bydd y FfLlRh yn ofyniad cwricwlwm statudol o fis Medi 2013 ymlaen, ni fydd yn ofynnol i ysgolion gynnal yr asesiadau blynyddol ffurfiol tan y flwyddyn academaidd yn cychwyn ym mis Medi 2014, er mwyn rhoi amser iddynt ymwreiddio'r FfLlRh yn eu gwaith cynllunio cwricwlwm a'u gwaith addysgu a dysgu. Dylid nodi bod hyn yn cyfeirio at yr asesiadau blynyddol o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar wahân yn cael eu cyflwyno o fis Mai 2013 ymlaen.

Yn ail, roedd y ddogfen ymgynghori wreiddiol yn cyfeirio at ystod gynhwysfawr o ganllawiau a hyfforddiant ar-lein, ond gellid dadlau bod y Rhaglen Gymorth Genedlaethol fwy sylweddol gwerth £7 miliwn, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach, yn adlewyrchiad o ymateb Llywodraeth Cymru i'r farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad rhanbarthol ledled Cymru ym mis Mawrth 2013 fel rhan o'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a gweithdai.

Yn ogystal, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ddiwygiadau i'r FfLlRh ei hun, gan gynnwys newid enw'r llinyn darllen o "darllen er gwybodaeth" i "darllen ar draws y cwricwlwm", dileu'r term "farenheit" y teimlwyd ei fod yn hen ffasiwn, ac ychwanegu colofnau 'ymestyn' at y fframweithiau llythrennedd a rhifedd er mwyn ymestyn y cyflawnwyr uchaf.

## 7. Ymyriadau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun o newid ehangach

Mae ailraddnodi'r cwricwlwm[58] drwy gyflwyno'r FfLlRh a phrofion cenedlaethol yn digwydd mewn cyfnod o newid sylweddol ym maes addysg yng Nghymru. Ceir cyd-destun o newid ehangach ac mae'r ymyriadau ar lythrennedd a rhifedd yn rhan allweddol o hynny.

### *7.1. Newid strwythurol*

Yn 2011, cynhaliodd grŵp gorchwyl a gorffen o dan gadeiryddiaeth Vivian Thomas **adolygiad** o strwythur gwasanaethau addysgu yng Nghymru. Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys cryfhau consortia rhanbarthol a fyddai'n golygu bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n rhanbarthol mewn meysydd fel gwella ysgolion. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru yn yr **Ymateb i'r argymhellion gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau**.

Ar 16 Ebrill 2013 cyhoeddwyd **adolygiad** o barodrwydd y consortia rhanbarthol ym mis Tachwedd 2012, a gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad** ar y pwnc hwn ar yr un dyddiad.

Roedd adroddiad Vivian Thomas hefyd yn argymell cynnal adolygiad manwl arall o'r gwaith o sut y darperir gwasanaethau addysg yng Nghymru, a chyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn gweithredu ar hyn. Wrth wneud y **datganiad**, nododd y Gweinidog yn eglur ei fod yn credu bod mwy o frys am yr adolygiad hwn oherwydd cyfres o ganlyniadau siomedig i wasanaethau addysg awdurdodau lleol yn dilyn arolygiadau gan Estyn.[59]

Cyhoeddodd y Gweinidog yn ddiweddarach mai Robert Hill fyddai'n cynnal yr adolygiad ac y byddai'r pwyslais yn cynnwys:

> ystyried a ddylai awdurdodau lleol barhau i gyflawni'r holl gyfrifoldebau addysg sydd ganddynt ar hyn o bryd.[60]

Roedd disgwyl i adroddiad adolygiad Robert Hill gael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Mawrth, ac mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn gwneud datganiad cyn toriad yr haf ynghylch y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.[61]

---

[58] Mae Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), wedi disgrifio'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd fel hyn.

[59] Hyd yma (Mai 2013), o'r deunaw gwasanaeth addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi eu harolygu gan Estyn o dan y fframwaith presennol, barnwyd bod pump ohonynt yn 'dda', chwech yn 'ddigonol', a chanfuwyd bod saith ohonynt yn anfoddhaol ac mewn categori Estyn ffurfiol. Mae angen i'r saith hyn wella'n sylwedol, ac mae chwech wedi eu rhoi o dan fesurau arbennig.

[60] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), *Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol*, Datganiad Llafar y Cabinet, 22 Ionawr 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion [16:20]***, 19 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

## 7.2. *Cynllun gweithredu 'Gwella Ysgolion' ac adolygiad o asesu a'r cwricwlwm*

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu cenedlaethol newydd o'r enw **Gwella Ysgolion**. Roedd hwn yn amlinellu manylion 'sut a phryd' o ran gweithredu'r gwahanol ddiwygiadau sydd ar waith, gyda Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd pennu'r llwybr hwn tan 2015 yn rhoi eglurder, yn rhoi trosolwg o'r holl ddiwygiadau ac yn gosod disgwyliadau pendant.[62]

Yn wyneb y newidiadau sylweddol y mae'n ei wneud o ran llythrennedd a rhifedd mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cychwyn **adolygiad o asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru.** Wrth gyhoeddi'r adolygiad, dywedodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y FfLlRh a'r profion yn rhan o ddull gweithredu cydlynol. Bydd yr adolygiad hefyd yn edrych i weld a yw Gorchmynion Pwnc presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ddigon heriol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau uwch y FfLlRh.[63] Caiff cam cyntaf yr adolygiad ei gwblhau erbyn mis Medi 2013 ac mae disgwyl i'r ail gam gael ei gynal ym mis Medi 2014, pan weithredir unrhyw newidiadau hefyd.

## 7.3. *Adolygiad o Gymwysterau 14-19 a chymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg a Mathemateg*

Lansiwyd adolygiad o gymwysterau yng Nghymru ar gyfer y grŵp oedran 14-19 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau Jeff Cuthbert, ym mis Medi 2011. Cadeiriwyd hwn gan Huw Evans OBE. Cyhoeddwyd yr **Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion** ar 28 Tachwedd 2012 a gwnaeth 42 o argymhellion. Nododd:

> Mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad canolog ei bod hi'n bryd datblygu system gymwysterau genedlaethol, gadarn, unigryw ac o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a chefnogi'r gwahaniaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU os yw hynny o fudd i ddysgwyr yng Nghymru.[64]

---

[62] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), ***Gwella Ysgolion***, Hydref 2012, t2 [fel ar 13 Mai 2013]
[63] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 1 Hydref 2012, [fel ar 13 Mai 2013]
[64] ***Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion***, Tachwedd 2012, t4 [fel ar 13 Mai 2013]

O ran llythrennedd a rhifedd, o'i ymgynghoriad a'i ymwneud â rhanddeiliaid, canfu'r Adolygiad:

> yn gyffredinol, disgwylir i gymwysterau TGAU cyfredol mewn Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg Iaith a Mathemateg fod yn ddangosyddion dibynadwy o lefelau priodol o lythrennedd a rhifedd, ond nid ydynt yn llwyddo i wneud hynny. Ym marn rhai cyflogwyr a phrifysgolion, nid yw gradd C neu uwch hyd yn oed yn gwarantu llythrennedd neu rifedd digonol.[65]

Ystyriodd yr Adolygiad yr effaith y bydd y FfLlRh yn ei chael yn ystod ei gyfnod gweithredu hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (diwedd Blwyddyn 9), ac felly pa drefniadau a ddylai ddilyn yng Nghyfnod Allweddol 4. Penderfynodd:

> Dylai'r manylebau a lefel y gofynion ar gyfer cymwysterau TGAU yn y dyfodol adlewyrchu'r cynnydd y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl ym Mlwyddyn 10 ac 11, gan adeiladu ar ddisgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.[66]

O ganlyniad, argymhellodd Huw Evans y dylai fod cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith Gyntaf, a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd o lythrennedd. Gellid cyflawni hyn drwy adeiladu'n benodol ar y lefelau llythrennedd disgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mewn Saesneg Iaith, drwy roi llawer mwy o bwyslais ar ansawdd a chywirdeb ysgrifennu a sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mewn Mathemateg, argymhellodd yr Adolygiad gymhwyster TGAU newydd mewn Rhifedd ochr yn ochr â chymhwyster arall yn ymdrin â thechnegau mathemategol. Byddai'r TGAU Rhifedd yn adeiladu'n benodol ar y lefelau rhifedd y disgwylir eu datblygu o dan y FfLlRh.[67]

Wrth ymateb i argymhellion yr Adolygiad ar 29 Ionawr 2013, dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau:

> Byddwn yn datblygu TGAU newydd mewn Saesneg iaith a Chymraeg iaith gyntaf, a dwy TGAU mathemateg newydd, sy'n cwmpasu rhifedd a thechnegau mathemategol. Bydd y TGAU newydd, ar gyfer addysgu o fis Medi 2015, yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwelliannau a ddisgwylir gan y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae pobl yn disgwyl i TGAU asesu llythrennedd a rhifedd, a bydd y TGAU newydd yn gwneud hynny. Bydd cael dwy TGAU mathemateg yn adlewyrchu pwysigrwydd y pwnc ar gyfer dilyniant a chyflogaeth. Byddwn yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gymryd y ddwy TGAU mathemateg.[68]

Ymddengys felly fod cysylltiad agos rhwng yr ymyriadau polisi o ran llythrennedd a rhifedd a sawl newid sylweddol arall sy'n digwydd o ran polisi addysg yng Nghymru. Trafodir arwyddocâd hyn a rôl arweiniad cryf ac effeithiol o ran sicrhau'r lefel hon o newid cydredol a chronnol yn adran olaf y papur ymchwil hwn.

---

[65] *Ibid*, t40
[66] *Ibid*, t41
[67] *Ibid*, t10
[68] Llywodraeth Cymru, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert), *Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19*, Datganiad Llafar y Cabinet, 29 Ionawr 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

## 8. Rhagor o gymariaethau gyda gwledydd eraill y DU

Er mwyn atgyfnerthu pwyntiau a wnaethpwyd yn gynharach yn y papur hwn, mae canlyniadau PISA 2009 wedi bod yn un o'r prif ysgogwyr ar gyfer ymgyrch Llywodraeth Cymru ar berfformiad a safonau, ymgyrch y mae'r ffocws ar lythrennedd a rhifedd yn rhan allweddol ohoni.

Roedd lefelau darllen a mathemateg yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD a'r DU, a lefelau Cymru oedd yr isaf o blith y pedair cyfundrefn addysg yn y DU. Roedd sgorau darllen a mathemateg Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd o fewn yr un ystod ystadegol arwyddocaol, ond yng Nghymru roeddent yn sylweddol is. Ymhellach, roedd dirywiad wedi bod yn sgorau Cymru ar gyfer darllen, mathemateg (a gwyddoniaeth) er 2006.

### *8.1. Cymharu canlyniadau TGAU*

Isod, cyflwynir cyfraddau cyflawni TGAU mewn Saesneg Iaith a Mathemateg yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd er mwyn rhoi syniad o'r lefelau perfformiad diweddar yn y ddwy wlad.

Mae'n deg nodi y cydnabyddir nad yw'r cymwysterau hyn yn cwmpasu'n ddigonol yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan gymwysterau sy'n asesu llythrennedd a rhifedd[69] a dyma pam y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno TGAU Saesneg Iaith (yn ogystal â Chymraeg) diwygiedig ac ail gymhwyster TGAU Mathemateg yn ymdrin â rhifedd. Fodd bynnag, i raddau, maent yn adlewyrchu lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd, ac yn helpu i esbonio ymhellach y cyd-destun ar gyfer y brys tybiedig o ran yr ymyriadau polisi penodedig.

Yn wir, defnyddiwyd canlyniadau TGAU Mathemateg fel 'procsi i roi rhyw syniad i ni o'r safonau rhifedd sylfaenol'[70] yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ei hun wrth amlinellu'r angen i weithredu yn y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol.

Dengys Tabl 5 isod gyfran y disgyblion yng Nghymru sy'n llwyddo i gael graddau A*-C mewn TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg, ac os caiff y rhain eu defnyddio fel dangosyddion, er eu bod yn ddangosyddion anfoddhaol, gellid dadlau eu bod yn cefnogi'r casgliad bod **lefelau llythrennedd a rhifedd yn is yng Nghymru nag y maent yn Lloegr.**

Heblaw am yr ystadegau yn Nhabl 5, fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cyfran y disgyblion sy'n cael graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith yn uwch mewn gwirionedd ymhob un o'r pedair blynedd hyn o gymharu â TGAU Saesneg Iaith yng Nghymru ac yn Lloegr.

---

[69] ***Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion***, Tachwedd 2012, t40 [fel ar 13 Mai 2013]
[70] Llywodraeth Cymru, ***Rhaglen Rhifedd Genedlaethol***, Medi 2012, t4-5 [fel ar 13 Mai 2013]

**Tabl 5: Canlyniadau TGAU yng Nghymru a Lloegr**

*canran yr ymgeiswyr*

| | Saesneg Iaith | | Mathemateg | |
|---|---|---|---|---|
| | A*-C | A*-G | A*-C | A*-G |
| 2011/12 | | | | |
| Cymru | 62 | 99 | 57 | 97 |
| Lloegr | 69 | 99 | 71 | 98 |
| 2010/11 | | | | |
| Cymru | 63 | 99 | 60 | 97 |
| Lloegr | 72 | 99 | 67 | 98 |
| 2009/10 | | | | |
| Cymru | 63 | 99 | 59 | 97 |
| Lloegr | 70 | 99 | 65 | 98 |
| 2008/09 | | | | |
| Cymru | 62 | 99 | 57 | 96 |
| Lloegr | 66 | 99 | 61 | 98 |

Ffynhonnell: Tynnwyd o Ystadegau ar gyfer Cymru, SDR 212/2012: Canlyniadau Arholiadau, 2011/12, 6 Rhagfyr 2012; SDR 221/2011: Canlyniadau Arholiadau, 2010/11, Tabl 5, 30 Tachwedd 2011; SDR 84/2011: Ysgolion yng Nghymru: Perfformiad mewn Arholiadau 2010, Arholiadau Cyhoeddus; Gwybodaeth Gyffredinol, Tabl 2.5, 25 Mai 2011; SDR 76/2010 Ysgolion yng Nghymru: Perfformiad mewn Arholiadau 2009, Arholiadau Cyhoeddus: Gwybodaeth Gyffredinol, Tabl 2.5, 25 Mai 2010; a'r Adran Addysg (Lloegr), SFR/02/2013 Revised GCSE and equivalent results in England: academic year 2011 to 2012, Additional Tables 1: SFR/02/2013, Table 8: 24 January 2013; SFR/02/2012 Revised GCSE and equivalent results in England: academic year 2010 to 2011, Additional Tables 1: SFR/02/2012, Table 8,12 July 2012; SFR/01/2011 GCSE and equivalent results: England – academic year 2009 to 2010 (revised), Additional Tables 1: SFR/01/2011, Table 8,12 January 2011; SFR/01/2010 DCSF: GCSE and Equivalent Results in England, 2008/09 (Revised), Additional Tables 8 to 17, Table 9, 13 January 2010 [i gyd fel ar 22 Ebrill 2013]

Nodiadau:

a) Mae'r ffigurau yn Lloegr ar gyfer Saesneg Iaith yn 2011/12 wedi eu dynodi fel 'English' yn y datganiad ystadegol perthnasol. Fodd bynnag, mae'n berthnasol i Saesneg Iaith yn hytrach na Saesneg Llên.

b) Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau arholiadau ym mis Awst 2012, ac adolygiad o ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith yng Nghymru, ailraddiodd CBAC ei ganlyniadau Saesneg Iaith ar gyfer disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys canlyniadau ailraddio Saesneg Iaith CBAC. Newidiwyd graddau 2,203 neu 6.2% o ddisgyblion yng Nghymru, a newidiwyd graddau 1,105 neu 3.1% o ddisgyblion o D i C.

Rhoddir rhagor o gyd-destun gan nifer y disgyblion yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd sy'n cyrraedd 'trothwy cynwysedig lefel 2' sy'n cyfeirio at 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg Iaith a Mathemateg. Gellir gweld o Dabl 6 bod y mesur hwn o berfformiad TGAU yn dangos nad yw disgyblion yng Nghymru yn gwneud cystal â'u cyd-ddisgyblion yn Lloegr. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw y bydd 65 y cant o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 2 cynwysedig erbyn 2015[71], rhywbeth a fydd yn gofyn am gynnydd sylweddol ar 51 y cant yn 2011/12.

[71] Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru), ***Gwella Ysgolion***, Hydref 2012, t11 [fel ar 13 Mai 2013]

**Tabl 6: Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy cynwysedig Lefel 2 Saesneg/Cymraeg Iaith a Mathemateg**

*canran*

| | 2011/12 | 2010/11 | 2009/10 | 2008/09 | 2007/08 | 2006/07 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 51.1 | 50.1 | 49.4 | 47.2 | 45.6 | 44.4 |
| Lloegr | 59.4 | 59 | 53.5 | 49.8 | 47.6 | 46.3 |

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, SDR 212/2012: Canlyniadau Arholiadau, 2011/12, Tabl 1, 6 Rhagfyr 2012; Department for Education, SFR/02/2013: Revised GCSE and equivalent results in England: academic year 2011 to 2012, Main Tables SFR/02/2013, Table 1a, 24 January 2013 [fel ar 13 Mai 2013]

Nodiadau:

a) Mae 'cynwysedig Lefel 2' yn golygu 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg Iaith a Mathemateg. Yng Nghymru, mae'r mesur cynwysedig Lefel 2 yn ystyried y radd orau a gafwyd mewn Saesneg neu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer pob disgybl.

b) Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys canlyniadau ailraddio Saesneg Iaith CBAC.

## *8.2. Astudiaeth Carfan y Mileniwm*

Mae cymariaethau rhwng gwahanol gyfundrefnau addysg, a dilysrwydd cymariaethau o'r fath, yn destun erthygl sydd i'w chyhoeddi'n fuan a ysgrifennwyd gan Chris Taylor, Gareth Rees a Rhys Davies o Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hon yn tynnu ar Astudiaeth Carfan Mileniwm y DU sy'n cael ei chynnal gan Ganolfan Astudiaethau Hydredol yn Athrofa Addysg Prifysgol Llundain. Astudiaeth o 19,000 o blant a anwyd yn ystod 2000-2001 yw Astudiaeth Carfan y Mileniwm, ac mae'n edrych ar eu datblygiad mewn meysydd dysgu allweddol gan gynnwys llythrennedd a rhifedd.

Yn ôl WISERD mae amrywiaeth sylweddol o ran datblygiad plant yn y DU, ond yn nodedig, dywed **nad oes un llwyddiant unigol.**[72] Fodd bynnag, mae canlyniadau Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn rhoi arwydd pellach bod lefelau llythrennedd is yng Nghymru o gymharu â Lloegr ymysg plant 7 oed, er bod modd priodoli rhywfaint o hyn, o bosibl, i gynnydd penodol yn Llundain. Profion safonedig yw'r asesiadau, sydd wedi eu defnyddio mewn astudiaethau eraill ac sydd wedi eu haddasu ar gyfer oedran, ac felly sy'n cael gwared ar unrhyw amrywiad oherwydd gwahaniaeth oedran, rhywbeth a all fod yn arwyddocaol yn y blynyddoedd cynnar.

Ar hyn o bryd mae data ar gael ar y plant hyn hyd saith oed, a chasglwyd pedair set o ddata, pan oedd y plant hyn yn naw mis oed, yn deirblwydd oed, yn bum mlwydd oed ac yn saith mlwydd oed. Disgwylir i ganlyniadau'r pumed set ddata a gasglwyd pan oedd y plant yn 11 oed fod ar gael yn Hydref 2013.

[72] Taylor, Chris, Rees, Gareth, Davies, Rhys, (2013) *Devolution and Geographies of Education: the use of the Millennium Cohort Study for 'home international' comparisons across the UK*, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), t1 (i'w gyhoeddi yn Comparative Education)

Mae WISERD hefyd yn dadansoddi'r posibilrwydd y bydd y canlyniadau hyn yn ffurfio barn ynghylch y gwahanol gyfundrefnau addysg cenedlaethol yn y DU, ac yn dadlau bod sail fethodolegol gadarnach i 'arbrofion naturiol' mewn 'cymariaethau rhyngwladol cartref' fel Astudiaethau Carfan y Mileniwm, sy'n olrhain cynnydd plant tebyg dros gyfnod o amser, o gymharu â chymariaethau culach ac 'amrwd' untro fel cyrhaeddiad TGAU carfannau olynol neu ganlyniadau PISA.[73]

### *8.2.1. Methodoleg*

Mantais Astudiaeth Carfan y Mileniwm o ran cymharu gwledydd y DU, fel y pwysleisia WISERD, yw ei bod yn cadw cyffredinedd bod yn rhan o'r un genedl-wladwriaeth gyffredinol, sef y DU. Mae felly'n goresgyn llawer o gyfyngiadau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol gwneud cymariaethau rhyngwladol traddodiadol, megis PISA, ac ar yr un pryd yn defnyddio cydweddu sgorau tueddiad i gymharu samplau o blant tebyg yn ddilys.

Techneg a ddefnyddir gan ystadegwyr yw cydweddu sgorau tueddiad, er mwyn goresgyn tueddiad cynhenid mewn samplau a achosir gan gyfwerthedd, sy'n gyfyngiad allweddol mewn unrhyw astudiaeth gymharol. Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn defnyddio cyfres o amrywiadau alldarddol megis rhywedd, strwythur yr aelwyd, dosbarth cymdeithasol ac addysg rhieni er mwyn sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, bod modd cymharu samplau ar gyfer Cymru a Lloegr yn ddibynadwy. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nodi is-grŵp o blant yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm sy'n byw yn Lloegr sydd â nodweddion tebyg i blant yn yr Astudiaeth sy'n byw yng Nghymru.[74]

Mae sawl ffordd o 'gydweddu' grwpiau o blant er mwyn cael samplau tebyg. Mae WISERD yn adrodd ar ganlyniadau dwy ffurf ar gydweddu, gydag un yn defnyddio meini prawf llymach na'r llall. Mae 'Amcangyfrifyn cydweddu 2' yn llymach nag 'amcangyfrifyn cydweddu 1', sy'n golygu bod llai o blant ond plant sy'n cydweddu'n well yn cael eu cymharu yn yr ail sampl. Gan ddefnyddio'r gallu i ddarllen geiriau yn 7 oed fel enghraifft, samplwyd 1,601 o blant o dan amcangyfrifyn cydweddu 1 o gymharu â 1,442 o dan amcangyfrifyn cydweddu 2. Cyflwynir canlyniadau hefyd ar sail sampl llawn o blant yng Nghymru a Lloegr heb osod amodau ar gydweddu.

---

[73] *Ibid*, t3-5
[74] *Ibid*, t9

### *8.2.2. Canlyniadau*

Dengys Tabl 7 y cymariaethau o ran datblygiad gwybyddol ymhlith plant yng Nghymru a Lloegr sydd wedi eu cynnwys yn Astudiaeth  Carfan y Mileniwm. Arwyddocâd y sgorio yw mai 50 yw cyfeirnod y norm h.y. cyfartaledd y sgorau yn y profion pan gawsant eu sefyll i ddechrau cyn cael eu defnyddio yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm. Ni ddylid defnyddio'r sgorau felly er mwyn barnu cynnydd rhwng ystodau oedran. Yn hytrach dylid eu defnyddio at ddibenion cymharu gyda'r cyfartaledd a chymharu rhwng gwledydd.

**Tabl 7: Cymariaethau a Gydweddwyd o ran Datblygiad Gwybyddol hyd 7 Oed**

| | | *sgôr cymedrig* |
|---|---|---|
| | **Cymru** | **Lloegr** |
| **Geirfa Enwi yn 3 oed** | | |
| Heb gydweddu | 49.98 | 48.48 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 1 | 50.04 | 50.02 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 2 | 50.25 | 50.01 |
| **Geirfa Enwi yn 5 oed** | | |
| Heb gydweddu | 53.55 | 53.65 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 1 | 53.70 | 55.17 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 2 | 53.91 | 55.16 |
| **Y Gallu i Ddarllen Geiriau yn 7 oed** | | |
| Heb gydweddu | 47.67 | 51.11 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 1 | 47.78 | 50.28 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 2 | 48.22 | 50.33 |
| **Gallu Mathemateg yn 7 oed** | | |
| Heb gydweddu | 49.87 | 50.23 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 1 | 49.92 | 50.65 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 2 | 49.97 | 50.45 |
| **Llunio Patrymau yn 7 oed** | | |
| Heb gydweddu | 54.29 | 52.73 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 1 | 54.30 | 53.02 |
| Amcangyfrifyn cydweddu 2 | 54.35 | 53.00 |

Ffynhonnell: Taylor, Chris, Rees, Gareth, Davies, Rhys, (2013) Devolution and Geographies of Education: the use of the Millennium Cohort Study for 'home international' comparisons across the UK, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), t12 (I'w gyhoeddi yn Comparative Education)

Nodiadau:

Nid yw'r samplau a gydweddwyd yn cynrychioli eu gwledydd ond maent wedi eu creu er mwyn bod yn debyg i'w gilydd. Maent i'w defnyddio at ddibenion cymharu rhwng Cymru a Lloegr ac nid er mwyn asesu safle y naill wlad na'r llall yn unigol.

**Yn ôl y canlyniadau ar gyfer tri mesur o lythrennedd, ymddengys fod plant yn Lloegr wedi gwella eu sgiliau yn gyflymach na phlant cymaradwy yng Nghymru. Er bod y lefelau'n debyg yn 3 oed – yn wir maent yn uwch yng Nghymru – ond ymddengys bwlch rhwng Lloegr a Chymru o hynny hyd 5 oed, ac mae'n tyfu wedyn hyd 7 oed.** Er mwyn rhoi cyd-destun i'r bwlch hwn, mae gwahaniaeth o 2.5 o ran y gallu i ddarllen geiriau yn 7 oed, fel gydag Amcangyfrifyn Cydweddu 1, yn gyfystyr â thua mis o ran datblygiad geirfa.

Mae'r darlun ar gyfer mathemateg ychydig yn wahanol. Mae sgorau cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer plant 7 oed yn debyg yn y categorïau nas cydweddwyd a'r ddau gategori a gydweddwyd, sy'n awgrymu bod **lefelau mathemateg (ac felly, gellid dadlau, lefelau rhifedd) fwy neu lai yr un fath ar yr oedran hwn.**

**Mae sgorau Cymru yn well na sgorau Lloegr o ran llunio patrymau yn 7 oed,** gyda 1.5 o wahaniaeth o ran sgôr, sy'n gyfwerth â rhyw dri mis o ran datblygiad delweddu gofodol a rhesymu nad yw'n rhesymu geiriol.[75]

Llai calonogol i Gymru yw'r cymariaethau rhwng lefelau cyrhaeddiad plant mewn tlodi ac sydd ar waelod y sbectrwm incwm aelwydydd, rhywbeth arall a archwilir yn yr erthygl hon. Cymharodd WISERD ganlyniadau llythrennedd ymysg y 25 y cant 'cyfoethocaf' a'r 25 y cant 'tlotaf' ym mhob sampl a gydweddwyd yng Nghymru ac yn Lloegr. Canfuwyd, **er bod y lefelau ychydig yn uwch yng Nghymru ymysg plant 3 oed, erbyn iddynt gyrraedd 5 oed roedd plant yng Nghymru o aelwydydd incwm uchel ac aelwydydd incwm isel ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr. Erbyn iddynt gyrraedd 7 oed, roedd y bwlch hwn yn dal i fod tua'r un fath ar gyfer y plant 'cyfoethocaf' ac roedd wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer y plant 'tlotaf'.**[76]

Gwelir darlun tebyg yn yr Alban ar gyfer plant o aelwydydd incwm isel rhwng 5 a 7 oed. Mewn perthynas â mater sydd efallai'n berthnasol i gyd-destun y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chyflwyno profion darllen a rhifedd cenedlaethol, dywed Taylor et al:

> Importantly, differences in the literacy development of low-income children in England, Wales and Scotland by age seven suggests that the more 'comprehensive' and perhaps less target-driven systems of Wales and Scotland appear to be associated with greater inequalities in child development.[77]

Dylid pwysleisio bod **Cymru wedi sgorio'n uwch na Lloegr o ran plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel mewn sawl categori arall,** sef: Amgylchedd Dysgu Gartref (3 oed); Lles Personol (7 oed); Agweddau at Ddysgu (7 oed); Lles yn yr Ysgol (7 oed) a Mwynhau Diddordebau (7 oed).

---

[75] *Ibid*, t12
[76] *Ibid*, t14
[77] *Ibid, t*14

### *8.2.3. Casgliadau WISERD ar Astudiaeth Carfan y Mileniwm*

Un ystyriaeth bwysig y tynnwyd sylw ati gan WISERD yw'r elfen sylweddol o wahaniaeth yng nghanlyniadau Lloegr. Wrth gymharu galluoedd llythrennedd a rhifedd yng Nghymru gyda'n cymydog agosaf, felly, mae angen gochel rhag yr amrywiad ym mhatrymau daearyddol Lloegr ei hun, sy'n ffactor nad yw'r amodau economaidd-gymdeithasol sydd wedi eu goresgyn drwy'r ymarfer cydweddu yn ei ystyried. Mae hyn yn arbennig o wir gyda llythrennedd lle yr ymddengys fod 'effaith Llundain' ar ddatblygiad plant.

Canfu WISERD o edrych ar Astudiaeth Carfan y Mileniwm fod cysylltiad rhwng plant yn Llundain yn 3 oed a sgorau geirfa isel. Er eu bod yn gwella'n raddol o hynny hyd 5 oed, wedi hynny mae'r gwelliant yn llawer gwell na rhannau eraill o Loegr, yn ogystal â Chymru. Erbyn iddynt gyrraedd 7 oed, mae plant yn Llundain yn cael sgorau sylweddol uwch o ran eu gallu i ddarllen geiriau, pan fo popeth arall yn gydradd, o gymharu â phlant o'r rhan fwyaf o ranbarthau / gwledydd eraill y DU. Yn wyneb y ffaith mai rhwng 3 a 7 oed yr ymddengys y bwlch llythrennedd rhwng Cymru a Lloegr, **mae'n bosibl y gellid priodoli llawer o'r 'gwelliant' o ran sgiliau llythrennedd yn Lloegr i blant yn Llundain.**[78]

Un o'r rhesymau a awgrymwyd am hyn yw'r crynhoad cymharol uchel o leiafrifoedd ethnig yn Llundain a'u tuedd i wneud cynnydd sylweddol o ran llythrennedd yn y cyfnod yn union cyn iddynt gyrraedd 7 oed.[79]

I grynhoi felly, er bod canlyniadau Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos peth amrywio yn lefelau llythrennedd a rhifedd Cymru a Lloegr, **casgliad Taylor et al. yw nad oes un stori 'lwyddiannus' sy'n awgrymu bod un gyfundrefn addysg yn 'well' na'r llall.** Dadleuant fod angen mwy o ddadansoddi canlyniadau addysgol mewn gwahanol wledydd yn y DU ac y bydd y don nesaf o gasgliadau data ar gyfer Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn 11 oed yn ychwanegu'n sylweddol at hyn.

Mae WISERD yn feirniadol o or-ddibynnu ar gymariaethau 'amrwd' gyda nifer fach o ganlyniadau sydd wedi eu diffinio'n gul, ac yn dadlau yn lle hynny dros astudiaethau hydredol sy'n olrhain cynnydd carfanau o blant dros amser. Maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd a manteision cymariaethau hydredol megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm, gan ddadlau dros eu defnyddio'n ehangach ac yn amlach ar gyfer datblygu a gwerthuso polisïau.

---

[78] *Ibid*, t18
[79] *Ibid*, t16,18

## 9. Casgliad

Mae'r papur hwn wedi ceisio esbonio'r cyd-destun ar gyfer yr ymyriadau polisi sydd wedi'u hanelu at wella lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, a'r rhesymau y tybir eu bod mor bwysig.

Mae diffyg dylanwad tybiedig y Fframwaith Sgiliau anstatudol blaenorol, ynghyd â chymariaethau anffafriol i Gymru yn rhyngwladol ac ar lefel y DU, wedi darbwyllo Llywodraeth Cymru bod angen camau radical gyda chefnogaeth statudol. Er y byddai'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd wedi datblygu fel polisïau beth bynnag o bosibl, gellid dadlau eu bod yn ganlyniad uniongyrchol i hyn.

Bydd llawer o'r diwygiadau yn cymryd blynyddoedd lawer i gael effaith, ac mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, wedi dweud mai'r nod mwyaf realistig yw cyflawni cynnydd yng nghylch canlyniadau PISA yn 2015 yn hytrach na 2012 (a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2013). Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd Cymru ymysg yr 20 uchaf pan gyhoeddir canlyniadau PISA 2015 ym mis Rhagfyr 2016.

Amlinellodd y Gweinidog hyn yn ei **ddatganiad** pan gyhoeddodd ei gynllun gweithredu 20 pwynt ym mis Chwefror 2011, ac fe'i dyfynnwyd hefyd ym mis Gorffennaf 2012 yn y *Times Educational Supplement (TES)* yn dweud:

> I know my ambition for Wales to climb the Pisa rankings is a significant challenge, and it would be unrealistic to expect significant improvements in the 2012 result. Systemic change takes time if it is to have a lasting impact. Experience tells us that quick fixes are seldom sustainable.[80]

Roedd erthygl y *TES* hefyd yn dyfynnu Michael Davidson, Prif Ddadansoddwr OECD, sy'n gyfrifol am oruchwylio PISA, ar faint yr her sy'n wynebu Cymru o ran cyrraedd ei tharged o fod yn yr 20 uchaf yng nghanlyniadau PISA yn 2015. Dywedodd:

> A 20-point increase in the space of six years would be a challenge. It's not impossible, but it would be at the upper end of what other countries have achieved. It's a stretching target, but then that's what targets should be.[81]

Mae'r ffaith bod ymyriadau ar lythrennedd a rhifedd yn digwydd mewn cyfnod o newid sylweddol ym maes addysg yng Nghymru yn hynod berthnasol ac yn rhywbeth y mae'r papur hwn wedi ceisio'i amlygu.

---

[80] The Times Educational Supplement, ***We'll reach Pisa goals but perhaps not this year***, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

[81] ***Ibid***

Pwysleisiwyd arwyddocâd y newid gan Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2011/12. Yn ei rhagair, soniodd am bwysigrwydd arweiniad cadarn o ran sicrhau gwelliannau a gwneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n cyd-fynd â newid sylweddol.

> Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr eraill ar fin mynd i gyfnod o newid mawr – newid yn y cwricwlwm a'r cymwysterau, a hyd yn oed newidiadau strwythurol o bosibl.
> Rwy'n gobeithio y bydd arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiad blynyddol yma i feddwl am eu dulliau o reoli newid yn eu sefydliadau gyda'r nod o adfywio'r diwylliant, o ganolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol ac o wella'r gwaith hunanarfarnu.[82]

Yn wir, haerodd y Prif Arolygydd mai 'yng ngallu ac ansawdd y gwaith arwain y mae'r ateb' a phwysleisiodd mai ystyr hynny yw'r gwaith arwain sy'n rhaeadru drwy'r gyfundrefn, gwaith arwain sy'n cael ei gynnig gan bawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.[83] Mae hon yn farn a gefnogwyd gan y Gweinidog pan anerchodd gynhadledd *Codi Safonau Ysgolion* Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013, cynhadledd a ddarlledwyd fel 'gweminar'.[84]

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynghylch y newidiadau presennol yn y sector addysg a hyfforddiant, dywedodd y Prif Arolygydd y byddai'n fuddiol ystyried beth oedd y berthynas rhwng y gwahanol newidiadau a'r adolygiadau a beth oedd y ffordd orau o weithredu'r rhain er mwyn sicrhau sefydlogrwydd digonol i'w cyflawni.

> Before introducing wholesale change there will be an opportunity to reflect on the likely effects and cumulative effects of changes when or if some or all recommendations from the different reviews are implemented. Some kind of large-scale modelling exercise would help at that point to consider aspects such as the dependencies between review strands, the resourcing implications and the optimum timing for implementation or transition so as to maintain stability.[85]

---

[82] Estyn, ***Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2011-12***, Rhagair, t11[fel ar 13 Mai 2013]
[83] ***Ibid***, t9
[84] Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, araith "Raising our sights" i ***Gynhadledd Codi Safonau Ysgol***, 18 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]
[85] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ***Estyn – Tystiolaeth Ychwanegol ar yr Adroddiad Blynyddol***, 13 Mawrth 2013, t5 [fel ar 13 Mai 2013]

Bellach mae'n agos at ddwy flynedd a hanner ers cyhoeddi canlyniadau PISA 2009 ym mis Rhagfyr 2010. Yn ystod y cyfnod hwn, amlinellodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu 20 pwynt gyda'r nod o godi safonau a pherfformiad, gwelwyd datblygwyd rhaglenni llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ac yna fframwaith cenedlaethol i'w gweithredu mewn ysgolion, a chyflwynwyd profion blynyddol newydd ar gyfer plant rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9, gyda'r cyntaf o'r rhain yn cael eu cynnal ym mis Mai 2013. Digwyddodd hyn yn erbyn cefndir polisi sy'n datblygu'n gyflym ac sydd wedi'i nodweddu gan newid sylweddol yn y sector addysg yn gyffredinol.

Mae cyfnod datblygu'r FfLlRh a'r profion cenedlaethol bellach yn symud tuag at gyfnod gweithredu, a thybir bod hyn yn hanfodol i lwyddiant yr ymdrechion i wella lefelau llythrennedd a rhifedd. Nododd Michael Davidson o PISA:

> The **implementation** of those actions [the 20 point plan] is what's going to reap the success – or not – as far as Wales is concerned. [my emphasis] [86]

Gan siarad yn fwy cyffredinol am newid a chyflawni ym maes addysg, dywedodd Syr Michael Barber, prif strategydd addysg gyda chwmni Pearson a chyn-gynghorydd i Lywodraeth y DU, wrth gynhadledd *Codi Safonau Ysgolion*:

> One of the commonest mistakes that politicians around the world make is this. They think that getting the policy right is difficult and they are right about that. They also think that it is 90 per cent of the task done … and they are completely wrong about that. They think that it is 90 per cent getting the policy right and then implementation will take care of itself. Actually, … it is pretty much the reverse of that. Getting the policy right is difficult but it is only 10 per cent of the task. Ninety per cent is making sure it happens in an effective way.[87]

Dylid ei gwneud yn eglur nad oedd Syr Michael Barber yn siarad am wleidyddion yng Nghymru nac unrhyw wlad yn benodol. Mae cyfres gyntaf y profion darllen a rhifedd blynyddol ym mis Mai 2013 a dechrau gweiwthredu'r FfLlRh o fis Medi 2013 ymlaen, gydag asesiadau ffurfiol yn dechrau flwyddyn yn ddiweddarach, yn ddatblygiad allweddol yn y byd addysg yng Nghymru. Profir eu heffeithiolrwydd neu beidio drwy eu gweithredu, ac yn ôl Llywodraeth Cymru ei hun, o ran yr effaith ar fesurau megis PISA a chyrhaeddiad TGAU yng Nghymru.

---

[86] Western Mail, ***Changes being put into effect can turn our dire PISA ratings around - OECD***, 12 Gorffennaf 2012 [fel ar 13 Mai 2013]

[87] Syr Michael Barber, "Deliverology, how do you make things happen?", Cyflwyniad i ***Gynhadledd Codi Safonau Ysgolion***, 18 Mawrth 2013 [fel ar 13 Mai 2013]